**Angen cyfeirio'r mater at y Cabinet / Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad:**

Angen penderfyniad y Cabinet – Na  
Angen penderfyniad Cyngor Sir – Na

**Yr Aelod Cabinet Sy'n Gyfrifol Am Y Portffolio:** Cyng Glynog Davies

<b>Y Gyfarwyddiaeth:</b> Addysg a Phlant	<b>Swyddi:</b>	<b>Rhifau ffôn / Cyfeiriadau E-bost:</b>
<b>Enw Pennaeth y Gwasanaeth:</b> Aeron Rees	Pennaeth Strategaeth a Chymorth Dysgwr	07717 858973 <a href="mailto:JARees@sirgar.gov.uk">JARees@sirgar.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> Aeron Rees	Pennaeth Strategaeth a Chymorth Dysgwr	
<b>Catrin Griffiths</b>	Rheolwr Datblygu'r Iaith Gymraeg	07971 229954 <a href="mailto:CSGriffiths@sirgar.gov.uk">CSGriffiths@sirgar.gov.uk</a>

**EXECUTIVE SUMMARY**  
**EDUCATION YOUNG PEOPLE AND WELSH LANGUAGE SCRUTINY**  
**COMMITTEE**  
**23 JUNE 2023**  
**WELSH IN EDUCATION STRATEGIC PLAN – ANNUAL UPDATE**

The 10-year WESP commenced in September 2022 and has therefore been in operation for the duration of the academic year.

This paper provides an update of progress made in implementing the WESP during the 2022/23 academic year.

The report is structured as follows:

- Legislative Background
- Implementation Plan (with an annexed copy of the RAG rated plan)
- Progress made this year with respect to the seven outcomes
- Linguistic Categorisation of Schools
- Welsh Language Development Team
- Language Centres
- Standards
- Workforce Development Grant
- Partnership Working
- The Future
  - The Welsh Education White Paper
  - Carmarthenshire as an area of linguistic significance

**DETAILED REPORT ATTACHED?**

**YES**

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**

**Signed: J. Aeron Rees**

**Head of Curriculum and Wellbeing**

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>NO</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>

## **1. Policy, Crime & Disorder and Equalities**

The Wales School Standards and Organisation Act (2013) became law on 4 March 2013. The Act places a statutory duty on local authorities to prepare and submit a Welsh in Education Strategic Plan which needs to be monitored.

Carmarthenshire is lauded nationally as being innovative and proactive with respect to this agenda. Positive support with the strategy will galvanise the perceived proactivity of the county as we move further towards the 2031 census and towards the national goal of delivering a million Welsh speakers by 2050 – an aim referenced in Welsh Government’s Programme of Government released on 15.6.21 and which is proposed to be laid down in statute in the new Welsh Education Bill.

The developments outlined in the paper build upon corporate priorities identified in Carmarthenshire’s Corporate Strategy (2022-27), namely Well Being Objectives 1 and 3. The proposals also support the Welsh Promotion Strategy, officially launched on 1.6.23, specifically Aims 1-4.

## **2. Legal**

Each Local Authority is required by law to have, and implement, a Welsh in Education Strategic Plan. This plan must be monitored. This can be achieved by corporate scrutiny and in scheduled meetings with Welsh Government.

## **3. Finance**

As noted in the Census Working Group’s recommendations, sufficient support and resources are required to successfully implement and promote and extend Welsh medium education in Carmarthenshire. The WESP is currently funded by a combination of core funding, coupled with the Welsh Immersion Grant and other grant sources such as the Welsh medium Workforce grant.

## **5. Risk Management Issues**

Not delivering an aspirational Welsh in Education Strategic Plan could:

- see the County Council failing to meet elevated WG requirements and expectations of Carmarthenshire with respect to the development of Welsh medium education and its WESP targets.
- entail failure to meet key Corporate strategic priorities.

There are also considerations in respect of maintaining an appropriate provision for latecomers moving into the county. This, and the appeals process, requires regular monitoring and can be ameliorated by immersion education and the use of our language centres. By the end of the decade, there will still be linguistic choice available in the system, albeit that all learners should have been bestowed with a higher base level of bilingual acquisition following their primary schooling.

## **6. Staffing Implications**

Maintaining and developing a strong team of TADG teachers (Tîm Athrawon Datblygu'r Gymraeg / Welsh Development Teacher Team) is vital for this agenda.

There are major staff training requirements which need to be expedited.

## **7. Physical Assets**

MEP/MIM funding or similar can assist with the restructuring of parts of the system (separate discussion), with capital investment available to support the WESP agenda.

# CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations on the WESP Strategy have taken in place and the outcomes are as detailed below:

Signed: J.A. Rees

Head of Strategy and Learner Support

(Please specify the outcomes of consultations undertaken where they arise against the following headings)

1. **Scrutiny Committee – 28.01.21; Scrutiny general update 17.03.21**
2. **Welsh in Education Forum – 16.12.20; 25.06.21**
3. **Local Member(s) – of schools identified for re-designation, pending approval to proceed**
4. **Community / Town Council – stakeholder in the public consultation pending approval**
5. **Relevant Partners – anticipated public consultation**
6. **Head Teachers: 21.01.21; 25.06.21**

Date	Meeting/Event
05.05.21	DMT
13.05.21	CMT
01.06.21	PEB
25.6.21	Second Head teacher surgeries (2)
	Fforwm y Gymraeg mewn Addysg / Welsh in Education Forum
30.6.21	PEB
8.7.21	ECS Scrutiny
July-September '21	Adjustments over summer vacation
06.09.21 (if required)	PEB
October -November '21 (no later than)	Heads & Governors
	8-week Public Consultation (with scrutiny perusal of report)
22.11.21	EB (including consultation report)
08.12.21	County Council
31.1.22	Submitted to WG
June-August '22	Approval by Welsh Ministers
1.9.22	New 10-year WESP became operational

Staff Side Representatives and other Organisations – Unions appraised as necessary

**CABINET MEMBER PORTFOLIO  
HOLDER(S) AWARE/CONSULTED**

YES

**Include any observations here**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information  
List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THERE ARE NONE, apart from internal WG guidance documentation**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG 23.6.23

### ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG SIR GAERFYRDDIN – 2022/23

#### 1. Cefndir

Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 20131 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg , ac mae'n nodi y dylai Cynllun o'r fath gynnwys:

- a. Cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn:
  - i. Gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn cael ei ddarparu yn ei ardal;
  - ii. Gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;
- b. Targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddarparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;
- c. Adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-32 bellach wedi ei gymeradwyo gan Llywodraeth Cymru. Ar gais Pwyllgor Craffu Addysg, Plant a'r Iaith Gymraeg Sir Gaerfyrddin, mae'n amserol i gynnig adolygiad blynyddol o gynnydd wrth weithredu'r Cynllun.

Trefnwyd y Cynllun Strategol a'r cynllun gweithredu o dan 7 prif nod neu ddeiliant:

- **Deiliant 1:** Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- **Deiliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- **Deiliant 3:** Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
- **Deiliant 4:** Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- **Deiliant 5:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd destunau gwahanol yn yr ysgol
- **Deiliant 6:** Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- **Deiliant 7:** Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

#### 2. Cynllun Gweithredu

Drafftiodd Cynllun Gweithredu ar gyfer y CSGA a'i gyflwyno i Llywodraeth Cymru (LIC) erbyn 01/2023. Atodwyd y cynllun gweithredu gyda'r adroddiad hwn (isod). Mae'r cynnydd wrth weithredu'r cynllun wedi ei uwch liwio yn ôl cynnydd disgwylidig dros y flwyddyn gyfredol yn ogystal ag awgrymu cynnydd dros y 5 mlynedd nesaf. Rydym wedi derbyn adborth ar y cynllun gan weision sifil Llywodraeth Cymru, a'r cyngor cyffredinol oedd sicrhau bod yr ymrwymadau yn y CSCA yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn y cynllun gweithredu a bod angen manylu ar sut yr ydym yn mynd ati i wireddu'r ymrwymadau.

Mae'r y cynllun wedi ei firenio a'i ddiweddarau erbyn 05/2023.

3. **Cynnydd diweddar** – dyma restr o wahanol flaengareddau o gwmpas y CSGA sydd yn/wedi dwyn ffrwyth yn ein hysgolion:

**Deiliant 1:** Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deiliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

- Penodi swyddog y Gymraeg Dechre'n Deg
- Rheolwr Datblygu'r iaith Gymraeg nawr yn aelod o bwyllgor '*Flying Start Expansion Early Years and Welsh Language*' - Cyfarfodydd cyson i gynllunio ar gyfer defnydd iaith yn y lleoliadau Dechrau'n Deg gyda golwg at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chodi safonau ieithyddol yn y Cyfnod Sylfaen
- Cynllun Law yn Llaw Cyfnod Sylfaen– mae 12 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ynghlwm â'r fenter yma. Mae 58 o staff yr ysgolion ail iaith yma yn derbyn hyfforddiant a chynor ymarferol ar lawr y dosbarth. Cynhelir sesiynau dysgu iaith y dosbarth ar fore Llun ac yna byddant yn gweithredu yn y dosbarth gyda chymorth y Tim Athrawon Datblygu'r Gymraeg (TADG) sydd yn rhannu adnoddau pwrpasol cyfredol.
- Mireinio a datblygu'r ddarpariaeth wrth gynllunio addysg drochi dwys yn y Cyfnod Sylfaen.
- Cynnal hyfforddiannau ar gyfer pedagogiaeth addysg Trochi yn y Cyfnod Sylfaen.
- Ffilmio cyfres o glipiau yn Ysgolion Hanner Ffordd, Penygae, Llandeilo a Phorth Tywyn er mwyn dangos ffyrdd o gyflwyno'r Gymraeg ar draws y meysydd dysgu.
- Cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer y cynorthwywyr ag athrawon sy'n rhan o'r prosiectau

**Deiliant 3:** Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

- Cynllun Baich ym Mraich CA2 yn cael ei beilota – Dilyniant yw hwn o gynllun Law yn Llaw ar gyfer athrawon a chynorthwyr dosbarth i sicrhau dilyniant ieithyddol yn ein hysgolion Saesneg.
- Creu clipiau ffilm i annog defnydd o'r Gymraeg ar draws y meysydd dysgu
- Cefnogi disgyblion Blwyddyn 6 ysgolion cyfrwng Cymraeg i sicrhau parhad gydag addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Cefnogi disgyblion Blwyddyn 6 sydd angen cefnogaeth wrth barhau yn addysg Cyfrwng Cymraeg yn yr Uwchradd – Cynnal sesiynau magu hyder a gloywi iaith yng Nghanolfan Gwên.
- Siarter iaith
  - Lansio Siarter Iaith Uwchradd – mae ffilm wedi ei greu o'r lansiad a gafwyd yng Nghanolfan Gwên ar 17/03/23. Dan ofal Heledd Cynwal, roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn, gyda gwestai arbennig megis Ian Gwyn Hughes, Cefin Campbell AS a Marc Morris, Ysgol Pen y Dre Merthyr Tydfil yn creu naws arbennig a negeseuon pwysig i'r disgyblion a'r staff ysgol oedd yn bresennol.
  - Trefnu digwyddiadau a chystadlaethau i hyrwyddo'r Siarter Cynradd ee Ar y Meic da Marci G – mewnbyn nifer o ysgolion i raglen radio Marci G wrth gyflwyno eu hunain a'u hysgolion. Ysgolion i greu rhaglen Radio gan ddilyn fformat Marci G.
  - Ysgolion i barhau ar y daith tuag at y wobr Aur Siarter Iaith gyda chefnogaeth TADG. Dilyswyd hyn ar draws y Bartneriaeth er mwyn sicrhau cysondeb safonau



#### **Deiliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

- Cynllun ar gyfer Canolfannau iaith yn sicrhau cysondeb a dilyniant gan gynnwys cynlluniau gwersi ac amserlen themâu ar draws y Canolfannau
- Canolfannau iaith – Ar hyn o bryd mae'r canolfannau isod yn rhedeg ond wrth i anghenion ieithyddol y sir newid bydd angen 'Pop ups ' o fewn ardaloedd penodol ar gyfer newydd ddyfodiaid
  - Gwên, Drefach
  - Ysgol Llangadog
  - Griffith Jones, San Clêr
  - Y Bedol, Garnant
- Niferoedd ac ysgolion presennol sy'n mynychu.

<b>Canolfan iaith</b>	<b>Ysgolion</b>
Canolfan Gwên - (deuddydd) Hwyrddyfodiaid -12	Parc y Tywyn, Ffwrnes, Pum Heol, Llechyfedach, Nantgaredig, Llandybie
Canolfan Gwên – (8 diwrnod) Magu hyder- 9	Cross Hands, Bancffosfelen ,Y Fro, Pontiets
Canolfan Y Bedol – un diwrnod-hwyrddyfodiaid. – 13	Betws, Brynaman, Blaenau, Y Bedol
Canolfan Llangadog - hwyrddyfodiaid -un diwrnod– 14	Talylychau, Rhys Pritchard, Cwrt Henri, Llangadog Ffairfach
Canolfan Llangadog Magu Hyder – un diwrnod - 13	Llangadog, Rhys Pritchard, Talylychau, Cwrt Henri, Ffairfach

- Cefnogi yn yr Ysgolion – Meidrim , Hafodwennog, Llanpumsaint Llanybydder Bro Brynach
- Gwersi ar lein Ffwrnes / Llechyfedach
- Parhau gyda gweithdai digidol disgyblion Mwy Abl a Thalentog blwyddyn 6

#### **Deiliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd destunau gwahanol yn yr ysgol**

- Cynnal gwersi Gloywi ar gyfer grwpiau targed – gyda niferoedd yn amrywio yn ôl y galw
- Rhieni - Ffilm ar gyfer rhieni i gynorthwyo o ran y gwaith o fewn y canolfannau iaith . Rhedeg cyfleoedd ar ddiwedd sesiynau i rannu gwaith y disgyblion gyda'u rhieni.
- Cyd weithio â'r Mentrau iaith – Swyddog wedi ei leoli yn ysgol Bryngwyn gan gynnwys Cynnal gweithgreddau llafar ee boreau coffi a chlonc yn yr ysgol.

#### **Deiliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

- Sicrhau bod ein disgyblion ag anghenion yn cael yr un cyfleoedd o ran dysgu Cymraeg – Cyd weithio gyda ThADG i greu cyfres o lyfrau tair-ieithog – Cymraeg, Saesneg a iaith Arwyddo o'r enw Derwyn a'r Ddraig
- Cefnogi ADY a'u hannog i gystadlu yn yr Eisteddfod
- Sgyrsiau dwys gyda thîm ADY y Sir i sicrhau cyd weithio a chynnig cyfleoedd cyfartal.

#### **Deiliant 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg**

- Cyd weithio i flaen gynllunio. Defnydd o awdit iaith yn flynyddol ac o ddealltwriaeth y TADG o'r ysgolion hynny sydd yn awyddus i symud yn ieithyddol. Mae nifer o ysgolion wedi gofyn am gymorth gyda chefnogaeth y corff llywodraethol

- Rhannu arfer dda ar lawr y dosbarth
- Creu adnoddau pwrpasol a chynnal hyfforddiannau
- Ffilm arfer dda ail iaith ar gael ar gyfer hwyluso a magu hyder staff
- Cyrsiau Hyfforddiant iaith ar y lefelau canlynol
  - Dechreuwyr llwyr (Cynradd)
  - Lefel Mynediad – ar gyfer dechreuwyr, seiliedig ar iaith a gwaith y dosbarth
  - Lefel Sylfaen – ar gyfer y rhai oedd ag ychydig o Gymraeg yn barod
  - Lefel Canolradd
    - Canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel pwnc a llythrennedd -yn cynnwys methodoleg dysgu iaith a Gramadeg
- Lefel Uwch/Hyfedredd - anelu at siaradwyr Cymraeg i wella cywirdeb iaith a hyder yr athro i'w alluogi i ddatblygu llythrennedd y disgybl
- Lefel Uwch/Hyfedredd/Gloywi (Uwchradd) - anelu at siaradwyr Cymraeg sydd bron â bod yn hyderus i ddysgu pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys geirfa ar gyfer CA3 a CA4 wedi'i deilwra yn arbennig ar gyfer pynciau'r athrawon fydd yn mynychu
- Yn ddilyniant – cefnogi athrawon Uwchradd Blwyddyn 7 i fagu hyder a sicrhau cywirdeb wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- Prosiect S4C CROESO CYW – roedd hwn yn brosiect llwyddiannus iawn yn ymgorffori gwaith arloesol gyda S4C ar gyfer plant cyfnod Sylfaen
- **Staffio**
  - Defnydd o'r grant Trochi i redeg cyfle Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer 2 athrawes – un Uwchradd un Cynradd i gyd weithio o fewn TADG

4. **Catgoreiddio ysgolion yn ieithyddol** – Mae'r Adran Addysg a Phlant yn cydweithio gydag ysgolion i'w trosglwyddo i system catgoreiddio ieithyddol newydd Llywodraeth Cymru. Bellach, mae'r gyfundrefn newydd yn gosod ysgolion mewn tri chategori:

**1** – Ysgol Cyfrwng Saesneg

**2** – Ysgol dwy iaith

**3** – Ysgol Cyfrwng Cymraeg

Mae **T2** a **T3** yn gategoriâu trosiannol sydd yn hwyluso siwrnai ysgolion o un categori i'r llall, sef T2 ar gyfer symud o ysgol Saesneg i ysgol dwy iaith a T3 o ysgol dwy iaith i ysgol Cyfrwng Cymraeg. Hefyd, yn yr uwchradd, mae categori 3P yn dynodi ysgol penodedig Gymraeg.

- Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, y Sir sydd wedi arwain drwy amlygu categori newydd cyfredol sydd orau'n adlewyrchu sefyllfa ieithyddol presennol pob ysgol
- Hefyd, gosodwyd categori dyheadol i bob ysgol sef categori i anelu ato yn nhreigl y CSGA 10 mlynedd
- Mae'r drefn yma wedi ei nodi fel arfer da gan Lywodraeth Cymru a chafwyd cyfle i ledu'r arfer da yma'n genedlaethol mewn dwy gynhadledd ddiweddar
- Gofynnwyd i bob ysgol ymateb i'r categorïau a gynigiwyd ar eu cyfer, ac ymateb erbyn diwedd Tymor yr Hydref 2022. Mae'r tabl isod yn crynhoi yr ymateb a gafwyd:

CYFREDOL / DYHEADOL	Nifer Ysgolion	%
CYTUNO CYTUNO	87	80.6
CYTUNO ANGHYTUNO	1	0.9
ANGHYTUNO CYTUNO	2	1.9
ANGHYTUNO ANGHYTUNO	11	10.2
CAIS AM FWY O AMSER	5	4.6
HEB ATEB	2	1.9
<b>CYFANSWM</b>	<b>108</b>	<b>100</b>

Mae'r ymateb wedi bod yn bleserus iawn ar y cyfan, gyda mwyafrif clir yn cytuno gyda'r ddau categori a awgrymwyd ar eu cyfer. Yn ddi-ddorol, o blith yr 87 ysgol yma, mae 12 ysgol cynradd cyfrwng Saesneg yn dymuno symud ar hyd y continwwm iaith; 2 ysgol uwchradd 2B am droi yn ysgolion Cymraeg (Categori 3) ac un ysgol 2A am symud i fod yn ysgol Categori 3P.

Gan fod yr ymateb yn polareiddio ychydig, yn nhymor y Gwanwyn 2023, mae swyddogion wedi cynnal cyfres o sgysiau a chyfarfodydd gyda'r ysgolion oedd yn dymuno mwy o amser i ystyried y sefyllfa, a gyda'r sawl oedd yn anghytuno gyda'r ddau categori. O blith yr 11 ysgol yma, roedd 8 o'r ysgolion yn dod o'r un dalgylch.

Aethpwyd i gyfarfodydd ffurfiol gyda Phenaethiaid a Llywodraethwyr fel a ganlyn:

- Dalgylch ysgolion dwyrain Llanelli
- Ysgol Bryngwyn/Glanymor
- Ysgol y Frenhines Elisabeth

Ar gyfer tymor yr Haf 2023 - rydym wedi rhoi estyniad, i'r ysgolion hynny sy'n ei feddu, ystyried eu sefyllfa ymhellach ac i gynnal trafodaethau pellach ar lefel corff llywodraethu. Disgwyliwn atebion pellach felly erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.

Yn ystod Tymor yr Hydref, byddwn yn cytuno a chadarnhau categorïau yn derfynol gyda'r holl ysgolion, yn cynnig cyngor ar sut i adlewyrchu'r categori iaith yn y prospectysau ysgol, gan balmantu'r ffordd ar gyfer cofnodi'r categorïau yng nghyfrifiad blynyddol ysgolion (CBLDY / PLASC) yn Ionawr 2024.

## 5. Tîm Athrawon Datblygu'r Gymraeg –

- Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru. - Enillodd Iona Llyr, Rheolydd y Tîm Athrawon Datblygu'r Gymraeg wobr yn y categori 'Defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd sy'n ysbrydoli'. Daeth beirniaid i Ganolfan Gwên i feirniadu Iona wrth gyfweled â hi a phenaethiaid, Disgyblion/myfyrwyr, rhieni/gofalwyr, cydweithwyr addysgu a staff cymorth, Pennaeth Cwricwlwm a Lles, Adran Addysg a Phlant a sefydliadau allanol.
- Cynhaliwyd seremoni yng Nghaerdydd ar gyfer yr enillwyr yng nghynhadledd haf 2023.
- Mae Iona wedi derbyn nifer o geisiadau wedi hynny ar gyfer cyfweiliadau ar y teledu a Radio a hefyd o ran rhannu arferion da ar draws Cymru

## 6. Safonau –

- Mae medrau siarad a gwranddo rhan fwyaf y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gryf ar draws llawer o'n hysgolion. Er enghraifft, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos medrau gwranddo effeithiol trwy ddilyn cyfarwyddiadau, gofyn ac ateb cwestiynau a chydweithio ag eraill.
- Yn y ddwy iaith, mae medrau darllen cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn llawer o ysgolion yn effeithiol. Defnyddiant eu medrau ffonig yn llwyddiannus i ddeall y berthynas rhwng ffonemau a graffemau. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio ystod o strategaethau yn dda i ddarllen geiriau anghyfarwydd a datblygu eu rhuglder a'u mynegiant. Ym mwyafrif ein hysgolion mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio uwch fedrau darllen yn llwyddiannus.

- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu sylfaenol priodol mewn llawer o ysgolion. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn llwyddiannus ac yn arddangos arddulliau ysgrifennu priodol at wahanol ddibenion.
- Mae llawer o ysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwy ffrwd yn gweithredu'r prosiect Cymraeg Campus yn llwyddiannus, ac mae hyn yn cael effaith dda ar ymwybyddiaeth disgyblion o'r iaith, ei diwylliant a'i hethos. Mae llawer o ddisgyblion mewn llawer o'n hysgolion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu caffaeliad o ieithoedd rhyngwladol o'r cyfleoedd a'r profiadau gwerthfawr a ddarperir
- Yn yr ysgolion a arolygwyd ers mis Medi 2022 roedd llythrennedd yn argymhelliad i fynd i'r afael ag ef gan tua hanner ohonynt

### **7. Gweithio gyda Phartneriaid – Partneriaeth / Mentrau Iaith**

- Cyd weithio i flaen gynllunio. Defnydd o awdit iaith yn flynyddol ac o ddealltwriaeth y TADG o'r ysgolion hynny sydd yn awyddus i symud yn ieithyddol . Nifer i ysgolion wedi gofyn am gymorth gyda chefnogaeth y corff llywodraethol
- Defnydd o staff Partneriaeth a'r Mentrau wrth gyd-weithio ar brosiectau penodol amrywiol ar draws nifer o ysgolion i sicrhau symud ar hyd y continwwm iaith.

### **8. Grant Datblygu'r Gweithlu**

Yn ddiweddar iawn, mae'r Adran Addysg a Phlant wedi bod yn llwyddiannus wrth dderbyn nawdd o £105,000 i gefnogi capasiti'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn y Sir. Anelwn at gyfuno'r nawdd gyda ffynonellau grant eraill i gyflogi athrawon peripatetig i gynyddu'r gweithlu addysgu cyfrwng Cymraeg, a'r ystod pynciau ar gael, yn y sector cynradd ac uwchradd yn Llanelli a'r sector uwchradd yn Nhâf Myrddin.

### **9. Y Dyfodol**

#### **a. Papur Gwyn**

- Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi bod yn ymgynghori'n gyhoeddus ar gynnwys Bil Addysg Gymraeg newydd. Amlyga canlyniadau Cyfrifiad 2021 fod angen gweithredu'n bwrpasol i fynd i'r afael â her ddeublyg y niferoedd cynyddol sy'n gallu siarad Cymraeg ledled Cymru a diogelu cymunedau Cymraeg sydd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg, ond sy'n dangos gostyngiad.
- Mae'r bil yn cynnwys cynigion megis:
  - Gosod y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 mewn cyfraith
  - Anelu fod disgyblion erbyn oedran statudol yn gallu siarad Cymraeg hyd at Lefel B2 (CEFR – Common European Framework of Reference)
  - Gwireddu un continwwm Cymraeg
  - Gosod categorïau iaith ysgolion ar sail statudol
  - Gosod isafswm o ran amser cwricwlwm a ddarperir yn y Gymraeg
  - Cytuno egwyddor y dylai pob ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg dros amser
  - Cynnig i bennu ysgolion newydd yn ysgolion Cymraeg
- Mae gan y system addysg ran annatod i'w chwarae wrth inni ymateb i'r heriau hyn.
- Dywed LIC fod pob disgybl yng Nghymru yn haeddu dod yn siaradwr Cymraeg, ac mae gan bawb sy'n gweithio yn y system addysg gyfrifoldeb i weithio tuag at y nod hwnnw.
- Mae'r cynigion yn y papur gwyn yn adlewyrchu'r nod a'r uchelgais newydd hwn ar gyfer ein system addysg. Bydd cyflawni hyn yn golygu cynyddu nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, ond hefyd cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig. Yn y bôn, mae gweledigaeth y gall pob disgybl ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus trwy'r system addysg statudol.

- Mae LIC wedi ymrwymo i sicrhau dros amser bod pob plentyn yn derbyn cyfran o'u darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i'r Gymraeg fel pwnc, er mwyn meithrin sgiliau Cymraeg ar draws y cwricwlwm.
- Mae'r llwybr presennol a osodwyd gan 'Cymraeg 2050' yn 2017 yn gosod nod y bydd o leiaf 40% o'r holl ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050.
- Mae'r Papur Gwyn yn nodi nifer o ddatblygiadau pwysig ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, y gellir ystyried rhai ohonynt o leiaf yn bellgyrhaeddol.
- Ynglŷn â'r ymgynghoriad, fe wnaeth LIC ddatgan, *'Mae'r Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, ac felly rydym am annog pawb i ystyried y cynigion...Bydd yr ymgynghoriad yn para am 12 wythnos, tan 16 Mehefin 2023. Edrychwn ymlaen at glywed y safbwyntiau ystod eang o bobl ar ein cynigion.'*

## **b. Sir Gâr fel ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch**

Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022 gyda'r nod o wneud argymhellion er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg. Bydd argymhellion terfynol y Comisiwn yn cael eu cyhoeddi ar ffurf adroddiad erbyn mis Awst 2024.

Mae'r Comisiwn yn pwysleisio mai iaith genedlaethol yw'r Gymraeg. Mae iddi nifer o nodweddion cyfanfydol a dylai polisi iaith adlewyrchu hyn. Er enghraifft, dylai hawliau iaith yng Nghymru fod yn gyfanfydol: maen nhw'n perthyn i bob un o ddinasyddion Cymru lle bynnag maen nhw'n byw yn y wlad.

Er mwyn cefnogi'r Gymraeg fel iaith genedlaethol, mae angen hefyd ei chefnogi fel iaith gymunedol. Mewn ardaloedd sy'n wynebu shifft iaith i'r Saesneg, dylid bod yn barod i ganiatáu amrywio polisi cyhoeddus mewn meysydd sosioeconomaidd a sosioieithyddol er mwyn sefydlogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Meysydd fel cynllunio gwlad a thref, defnydd tir, tai, addysg, datblygu cymunedol, cynllunio ieithyddol a pholisïau economaidd yw'r rhain.

Er mwyn gallu amrywio polisi cyhoeddus mewn cymunedau o'r fath, dylid dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol. Dylid cyfeirio at yr ardaloedd hyn fel 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol (dwysedd uwch)'.

Mantais dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol (dwysedd uwch) fyddai:

1. caniatáu amrywiaeth polisi a phwyslais polisi o blaid y Gymraeg fel iaith gymunedol
2. sicrhau fod yr amrywiaeth polisi yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol amrywiol yr ardaloedd hyn
3. dwysáu'r ystyriaeth a wneir o'r Gymraeg o fewn fframwaith polisi
4. caniatáu ymyraethau o blaid y Gymraeg er mwyn ei sefydlogi a'i chryfhau fel iaith gymunedol
5. rhoi grymoedd angenrheidiol i rymuso cymunedau i wrthdroi shifft iaith

Yn dilyn Cyfrifiad 2021, mae'n ddigon posibl y daw Sir Gaerfyrddin, neu rannau ohoni, yn ardal(oedd) o arwyddocâd ieithyddol. Deallwn fod addysg o fewn sgôp y nawdd a fydd yn cael ei ddyfarnu i ardaloedd o'r dynodiad yma. Bydd swyddogion yn archwilio potensial y nawdd yma ar gyfer y gyfundrefn addysg yn y Sir. Ein nod fydd cyfuno unrhyw gynhaliaeth a ddaw i'n rhan gyda grantiau eraill er mwyn adeiladu ymhellach ar y gweithlu cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## Deilliant 1

## Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

<u>Yr hyn yr ydym am ei gyflawni</u>	<u>Gwneud iddo ddigwydd cefnogi ysgolion/sefydliadau</u>	<u>Tystiolaeth</u>	<u>Pryd?</u>
<b>Ddatblygu mwy o ddarpariaeth gofal plant/cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.</b>	Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr y blynyddoedd cynnar gan gynnwys Mudiad Meithrin a darpariaeth cyn i'r plentyn droi'n 3 oed, yn ogystal â Dechrau Deg, i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.	Penodi swyddog y Gymraeg Dechre'n Deg. Cyd weithio i flaen gynllunio. Aelod o bwyllgor .... Cyfarfodydd cyson i gynllunio ar gyfer defnydd iaith yn y lleoliadau.	Blwyddyn 1 2022/2023
<b>Cefnogi ysgolion dwy ffrwd a throsiannol presennol i ddod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.</b>	Byddwn yn parhau i rannu deunyddiau gyda rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid mewn perthynas â gwerth dwyieithrwydd er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth a gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ar bob cam trosiannol. Byddwn yn parhau i gynyddu'r ganran sy'n trosglwyddo o'r grwpiau meithrin i'r Cyfnod Sylfaen cyfrwng Cymraeg.	Rhannu gwybodaeth gan gynnwys ffilmiau LIC Ail ymweld â llyfrynau Addysg Gymraeg a chreuwyd yn 2018	Blwyddyn 1 2022/2023
<b>Ystyried ystod oedran ysgolion penodol ac o bosibl creu lle ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar iawn cyfrwng Cymraeg.</b>	Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr y blynyddoedd cynnar gan gynnwys Mudiad Meithrin a darpariaeth cyn i'r plentyn droi'n 3 oed, i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.	Datblygiadau addysg Cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen Creu adnodd 'Hud yr Hwiangerddi' - Cardiau o fewn llyfr gyda chodau QR Adnoddau Chwedlau	Blwyddyn1 2022/2023
<b>Parhau i fonitro'r galw mewn ardaloedd trefol.</b>	Mireinio yn ôl y galw	Cyd weithio gyda fforwm hybu iaith y sir	Blwyddyn 1-5 2022 -2027

## Deiliant 2

## Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

<u>Yr hyn yr ydym am ei gyflawni</u>	Gwneud iddo ddigwydd – cefnogi ysgolion/sefydliadau	Tystiolaeth	Pryd?
<b>Cynorthwyo ein hysgolion Trosiannol i symud i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.</b>	Byddwn yn rhannu deunyddiau gyda rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid mewn perthynas â gwerth dwyieithrwydd er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth a gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ar bob cam trosiannol.	Byddwn yn sicrhau bod rhieni, drwy ein llyfryn 'Gwybodaeth i Rieni' yn gwybod pa ysgolion sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2-5. Bydd y wybodaeth am natur ieithyddol pob ysgol, yn unol â dynodiadau ysgol newydd Llywodraeth Cymru Creu adnodd 'Hud yr Hwiangerddi' - Cardiau o fewn llyfr gyda chodau QR Adnoddau Chwedlau	Blwyddyn 1-2 2022-2024 Mireinio yn ôl y galw
<b>Cynorthwyo rhai o'n hysgolion dwy ffrwd i symud i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.</b>	Cefnogi ein hysgolion dwy ffrwd a throsiannol presennol i ddod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y tymor byr.	Cyd weithio gyda'r penaethiaid, staff, CLI a'r rhieni wrth farchnata dwyieithrwydd. Cynnig hyfforddiant i staff a rhieni (Cymraeg i'r teulu 'Dechrau'r Daith' Creu adnodd 'Hud yr Hwiangerddi' - Cardiau o fewn llyfr gyda chodau QR Adnoddau Chwedlau – addas iawn ar gyfer rhieni ac athrawon	Blwyddyn 1-5 2022-2027
<b>Cynorthwyo rhai o'n hysgolion Cyfrwng Saesneg i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.</b>	Cefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu darpariaeth y Cyfnod Sylfaen Cymraeg.	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chodi safonau ieithyddol yn y Cyfnod Sylfaen Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y Meysydd Dysgu	Blwyddyn 2-5 2023-2027



		<p>Creu adnodd 'Hud yr Hwiangerddi' - Cardiau o fewn llyfr gyda chodau QR Adnoddau Chwedlau</p> <p>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chodi safonau ieithyddol yng Nghyfnod Allweddol 2 Rhannu arfer dda ar lawr y dosbarth Creu adnoddau pwrpasol a chynnal hyfforddiannau Cynllun Braich ym Mraich CA2</p>	
<b>Cynorthwyo rhai o'n hysgolion Cyfrwng Saesneg i fod yn ysgolion dwy ffrwd.</b>	Monitro'r galw yn ein hardaloedd trefol yn barhaus ac yn hyrwyddo ac yn ehangu'r ddarpariaeth yn ôl y gofyn.	<p>Rhannu arfer dda ar lawr y dosbarth Creu adnoddau pwrpasol a chynnal hyfforddiannau Cynllun Law yn Llaw Cyfnod Sylfaen – 12 ysgol yn ynghlwm – 58 staff mewn ysgolion ail iaith: Talacharn, Y Model, Y Felin, Pwll, Pentip CP, Llandeilo, Dafen, Dyffryn y Swistir, Myrddin, Bryn Hanner Ffordd ,Penygaer. Cynnal Hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer y cynorthwywyr ag athrawon sy'n rhan o'r prosiectau:</p> <p>Datblygu adnodd / clipiau ffilm i annog y defnydd o'r Gymraeg ar draws y meysydd dysgu</p>	Blwyddyn 2-5 2023-2027
<b>Cynorthwyo ein hysgolion uwchradd/arbennig i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan ystyried dynodiad ieithyddol.</b>	Cynnig gloywi iaith i hwyrddyfodiaid a dysgwyr brodorol ar adegau pontio hanfodol a bod cyllid ar gael ar gyfer cludiant iddynt i'r canolfannau iaith.	Cynnal trafodaethau gyda phenaethiaid a CLI Penodi staff i ddarparu pynciau trwy gyfrwng ar draws ysgolion Saesneg Uwchradd.	Blwyddyn 2-5 2023-2027

<b>Rhieni</b>	Cynorthwyo rhieni i ddod ar y daith ddwyieithrwydd gyda'u plant	Sicrhau cyswllt agosach gyda rhieni'r hwyrddyfodiaid. Sgwrs ac ymweliad cychwynnol, ymweliad i weld y Ganolfan ar Waith + sgwrs /cyfarfod ar ddiwedd cyfnod Paratoi pecyn croeso i rieni newydd-ddyfodiaid. Paratoi taflen wybodaeth ar gyfer penaethiaid Sicrhau ein bod yn gwahodd rhieni i flasgu gwaith y plant a gwaith y ganolfan. Gwahodd rhieni i'r diwrnodau MATH ym Maes y Gwendraeth	
---------------	---	---	--

### Deilliant 3

**Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall**

<u>Yr hyn yr ydym am ei gyflawni</u>	Gwneud iddo ddigwydd – cefnogi ysgolion/sefydliadau	Tystiolaeth	Pryd?
Sicrhau dilyniant ieithyddol o sector y blynyddoedd cynnar i CA2 ac i'r sector uwchradd	Byddwn yn sicrhau bod pob disgybl yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith yn rhugl erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 i'w lefelau disgwylidig. Glynu wrth y protocol dilyniant clir i gynyddu nifer y disgyblion sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol a sicrhau bod hyn yn cael ei gyfleu'n glir i'r holl randaliad.	Cryfhau safonau a hyrwyddo pwysigrwydd parhau gydag addysg ddwyieithog Rhannu arferion da ar draws ysgolion Cefnogi disgyblion bl 6 sydd angen cefnogaeth wrth barhau gydag addysg	Blwyddyn 1-5 2022-2027

	<p>Byddwn yn parhau i wrando ar sylwadau rhieni ac ymateb iddynt megis 'Ni allwn helpu gyda gwaith cartref', yn enwedig yn CA3 a CA4 drwy greu canllawiau, neu bamffled yn yr achos hwn, sy'n rhoi atebion clir. Dangos a chreu clipiau ffilm o rieni sy'n disgrifio taith eu plant drwy addysg cyfrwng.</p>	<p>uwchradd Gymraeg/ ddwyieithog. Grŵp byrion gwersi gloywi byr yn wythnosol          Creu Adnoddau newydd pwrpasol a chynnal hyfforddiannau          Sicrhau cyswllt agosach gyda rhieni'r hwyrddyfodiaid. Sgwrs ac ymweliad cychwynnol, ymweliad i weld y Ganolfan ar Waith + sgwrs /cyfarfod ar ddiwedd cyfnod</p> <p>Creu clipiau ffilm i annog defnydd o'r Gymraeg ar draws y meysydd dysgu          Ffilm arfer dda ail iaith ar gael ar gyfer hwyluso a magu hyder staff          Ehangu darpariaeth Canolfannau Iaith          Cynnal gwersi Gloywi ar gyfer grwpiau targed ym mlynnyddoedd 7, 8 –Gwên, Maes y Gwendraeth          Parhau i staffio ein canolfannau iaith Gwên          Ysgol Llangadog          Griffith Jones          Y Bedol</p> <p>Creu Pop Ups yn ôl yr angen          Blwyddyn 7 Bro Dinefwr          Cynnal Gweithdai MATH bl 6 mewn canolfannau .          Gwahodd rhieni i'r diwrnodau agored</p>	
--	--	---	--

		<p>Cefnogi disgyblion bl 6 sydd angen cefnogaeth wrth barhau gydag addysg uwchradd Gymraeg/ ddwyieithog -Maes y Gwendraeth</p> <p>Cydweithio Partneriaeth I gefnogi athrawon Cymraeg Ysgol Bryngwyn yn Llanelli</p> <p>Cyd weithio â'r Mentrau - aelod o Fenter Elli wedi ei leoli o fewn ysgol Bryngwyn</p>	
Cynyddu'r ddarpariaeth pwnc o addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector uwchradd yn unol â dynodiadau'r ysgol newydd.	Byddwn yn sicrhau y gall ysgolion cynradd ac uwchradd weithio'n agosach o lawer mewn partneriaeth er mwyn hyrwyddo dilyniant ieithyddol	Defnydd o rannu sgiliau a darpariaeth o ysgol i ysgol. Cyflogi staff i gyd weithio ar draws ysgolion trwy gyfrwng- defnydd o grant LIC	Blwyddyn 2-5 2023-2027
Cryfhau'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd penodol y sir.	Cyd weithio gyda Phenaethiaid a CLI i edrych ar bosib ddarpariaeth o fewn yr ysgolion .	Cynnal hyfforddiant Gloywi Iaith a Dysgu trwy Gyfrwng i'r athrawon hynny sydd yn gymwys. Gosod targedau o fewn CDY i sicrhau cynladwyedd.	Blwyddyn 1-5 2022-2027

## Deilliant 4

Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

<u>Yr hyn yr ydym am ei gyflawni</u>	Gwneud iddo ddigwydd – cefnogi ysgolion/sefydliadau	Tystiolaeth	Pryd?
<p>Weithio gyda'r ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm i roi cyfleoedd i fwy o ddysgwyr gael mynediad at addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.</p>	<p>Datblygu'r Cwricwlwm: dull strategol o gynyddu cyfran y ddarpariaeth o ran pynciau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg gan ein holl ysgolion.</p> <p>Cynyddu nifer y pynciau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan arwain at ganran gynyddol o'r cwricwlwm ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, tra hefyd yn cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n dewis hyfforddiant pwnc cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog</p>	<p>Defnydd o rannu sgiliau a darpariaeth amrywiaeth o bynciau o ysgol i ysgol.</p> <p>Rhannu arferion da</p> <p>Creu clipiau arferion da fel adnodd ddysgu Cynnal hyfforddiant Gloywi Iaith a Dysgu trwy Gyfrwng i'r athrawon hynny sydd yn gymwys. Gosod targedau o fewn CDY i sicrhau datblygiadau.</p>	<p>Blwyddyn 2-5 2023-2027</p>
<p>Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn opsiynau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac, yn y pen draw, mwy o gynnydd i ddilyn cymwysterau yn 16 oed</p>	<p>Rydym yn bwriadu cefnogi cynnydd yn yr ystod o gyrsiau a gynigir, tra hefyd yn ymgorffori'r ddwy ysgol 2B fel partneriaid. Mae cyfleoedd i gysylltu â mentrau tebyg fel E-sgol hefyd yn cael eu dilyn.</p>	<p>Ehangu defnydd o'r Canolfannau iaith i gynnal cyrsiau dal i fyny a gloywi iaith i ddisgyblion Blwyddyn 7,8, a 9 i sicrhau dilyniant</p>	<p>Blwyddyn 1-5 2022-2027</p>
<p>Ymdrechu i sicrhau dewis ieithyddol yn ein hysgolion Saesneg sydd yn cefnogi cynnydd dwyieithrwydd disgyblion</p>	<p>Cyd weithio i gynllunio ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o bynciau trwy gyfrwng</p>	<p>Cynnal hyfforddiant iaith i staff penodol o fewn ysgolion Saesneg. Cyd weithio gyda phartneriaeth i sicrhau'r cynnig o bynciau'n ddwyieithog dros amser</p>	<p>Blwyddyn 2-7 2023-2027</p>

**Deilliant 5**

**Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd -destunau gahanol yn yr ysgol**

<u>Yr hyn yr ydym am ei gyflawni</u>	<u>Gwneud iddo ddigwydd – cefnogi ysgolion/sefydliadau</u>	<u>Tystiolaeth</u>	<u>Pryd?</u>
<p>Ymgorffori'r Siarter Iaith ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd gan arwain at gynyddu'r ethos Cymraeg yn yr holl ysgolion</p>	<p>Byddwn yn cefnogi ysgolion ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.</p>	<p>Cynnal diwrnod yng Nghanolfan Iaith Gwên- athrawon, disgyblion Uwchradd a chynghorwyr i ail lansio'r Siarter Iaith Uwchradd. Gwestion Mark Morgan - Ysgol Pen y Dre, Merthyr, Cefin Campbell AS, Heledd Cynwal ac Ian Gwyn Hughes (Pêl droed Cymru)</p> <p>Parhau i gefnogi ysgolion cynradd wrth iddynt weithio tuag at y wobr Aur.</p>	<p>Blwyddyn 1-5 2022-2027</p>
<p>Parhau i weithio gyda chyflogwyr ac addysg uwch i hyrwyddo dwyieithrwydd fel sgil allweddol ar gyfer addysg bellach a'r byd gwaith.</p>	<p>Cysylltu â chyflogwyr ac addysg uwch a hwyluso cyfleoedd i hyrwyddo o fewn ein hysgolion</p>	<p>Cynnal cyfleoedd ar gyfer sgwrsio gyda chyflogwyr lleol – amrywio o ardal o ardal</p> <p>Hyrwyddo Strategaeth iaith y sir Cyd weithio â cholegau'r sir</p>	<p>Blwyddyn 3-5 2024-2027</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod Gwasanaeth Athrawon Datblygu'r Gymraeg yn cael ei gynnal wrth iddynt weithio'n ddiflino i ddarparu pob agwedd ar gymorth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg</p>	<p>Parhau i gynnal y gwasanaeth wrth i staff ymddeol</p>	<p>Penodi staff ychwanegol gan ddefnyddio grantiau LIC. Cynnal prosiectau â phartneriaid ee S4C Prosiect .....benodol ee.....</p> <p>Cynllunio ar gyfer Canolfannau Iaith - ychwanegu cyfleoedd gan y Canolfannau - cynnal cyrsiau Gloywi iaith, cyrsiau</p>	<p>Blwyddyn 1-6 2022-2027</p>

		<p>Mireinio'r Cynllun ar gyfer y Canolfannau ar gyfer 10 wythnos / tridiau'r wythnos</p> <p>Creu cynllun Gloywi newydd ar gyfer ail dymor y newydd-ddyfodiaid</p> <p>Sicrhau cyswllt tymhorol / hanner tymhorol gydag Ysgolion a rhieni</p> <p>Gweithio tuag at gefnogaeth sy'n gyson ar draws y sir ar gyfer y newydd- ddyfodiaid</p> <p>Sicrhau cyswllt tymhorol / hanner tymhorol gydag Ysgolion a rhieni</p> <p>Gweithio tuag at gefnogaeth sy'n gyson ar draws y sir ar gyfer y newydd- ddyfodiaid</p> <p>Cynllunio addysg drochi ddwysach.</p>	
--	--	--	--

### Deilliant 6

**Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)**

<u>Yr hyn yr ydym am ei gyflawni</u>	Gwneud iddo ddigwydd – cefnogi ysgolion/sefydliadau	Tystiolaeth	Pryd?
Sicrhau bod darpariaeth gyflawn ar gael i bob dysgwr	Parhau i ddatblygu system ddwyieithog i ymateb i'r agenda diwygio ADY	Gweithio gyda'n Tîm Cymorth Ymddygiad ac Ysgolion/Unedau	Blwyddyn 1-5 2022-2027

ag ADY ym mhob lleoliad a gwasanaeth.		Arbennig i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog ymhellach	
Parhau i ddatblygu system ddwyieithog i ymateb i'r agenda diwygio ADY	Sicrhau bod y mwyafrif o'n dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi'n ein hysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.	Cynnal hyfforddiannau cyson i staff y sir.	Blwyddyn 1-5 2022-2027
Datblygu sgiliau ein Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ymhellach i gefnogi dysgwyr.	Darparu hyfforddiant dwyieithog i holl staff perthnasol o ran y diwygion ADY sydd ar waith.	Darparu hyfforddiant dwyieithog i holl staff perthnasol o ran y diwygion ADY sydd ar waith.	Blwyddyn 1-5 2022-2027

## Deilliant 7

### Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

<u>Yr hyn yr ydym am ei gyflawni</u>	<u>Gwneud iddo ddigwydd – cefnogi ysgolion/sefydliadau</u>	<u>Tystiolaeth</u>	<u>Pryd?</u>
Uwchsgilio staff yn ieithyddol	Pob ysgol i ymateb i awdit Sgiliau Iaith Gymraeg gweithlu'r ysgol gan ddadansoddi'r data sy'n nodi'r ddarpariaeth bresennol a meysydd i'w datblygu ymhellach. Bydd angen i bob ysgol adlewyrchu hyn yn nogfennau hunanwerthuso a chynlluniau datblygu'r ysgol. Bydd yn ofynnol i ysgolion ddefnyddio eu hadnoddau i ddarparu cyfleoedd i staff fanteisio ar gyfleoedd datblygu.	Awdit Sgiliau Iaith Sicrhau mewn bwn cynllunio ar gyfer staff yn mynychu cyrsiau iaith Defnydd grantiau LIC	Blwyddyn 1-5 2022-2027



	Cynnig hyfforddiant staff i wella darllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg, ac i fireinio sgiliau Cymraeg y rhai sydd eisoes yn rhugl. Byddwn yn defnyddio Fframwaith Sgiliau Iaith y Cyngor Sir fel sail ar gyfer y gwaith hwn		
Datblygu sgiliau a hyder athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i uwch-sgilio staff cynorthwyol i roi cymorth i ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg.	Cynnig hyfforddiant ar bob lefel o fynediad hyd at loywi wyneb yn wyneb ac arlein.	Rhedeg cyrsiau ar bob lefel ieithyddol Mynediad hyd at Loywi	Blwyddyn 1-5 2022-2027
Recriwtio staff/arweinwyr	Cynnig hyfforddiant iaith ac arweinyddiaeth benodol i arweinwyr ysgol.	Cynnig cyrsiau un i un i benaethiaid ar y cyd â Rhagoriaeth	Blwyddyn 2-5 2023-2027
Cefnogaeth i Lywodraethwyr Ysgol	Parhau i gefnogi a rhoi cyngor i Lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion ar ddatblygu gallu ieithyddol staff.	Staff CCC i gynnal cyfarfodydd o fewn ysgolion	Blwyddyn 2-5 2023-2027
Datblygu arweinyddiaeth a sicrhau bod gennym weithlu ysgolion â'r sgiliau dwyieithog addas	Cynnal amrywiaeth o gyrsiau iaith	Rhedeg cyrsiau iaith amrywiol yn ôl y galw – Dechreuwyr pur i Loywi iaith Sicrhau bod Sir Gaerfyrddin ar y fframwaith Dysgu gyda'r Ganolfan Genedlaethol Ennill tendr ar gyfer darparu cyrsiau Cymraeg i'r Teulu -ar waith	Blwyddyn 1-5 2022-2027

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwiadol

**Eitem Rhif 7**

**Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG**  
**23 Mehefin 2023**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL  
IFANC A'R GYMRAEG 2022/23**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu:**

Ystyried a chymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ar gyfer blwyddyn y cyngor 2022/23.

**Y rhesymau:**

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu gyflwyno adroddiad yn flynyddol ynghylch eu gwaith.

**I'w gyfeirio at y Cabinet / Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad:** Nac Ydy

**Yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y Portffolio:-**

Y Cynghorydd Glynog Davies(Addysg a'r Gymraeg)

**Y Gyfarwyddiaeth**

Y Prif Weithredwr

**Enw Pennaeth y  
Gwasanaeth:**

Linda Rees-Jones

**Awdur yr Adroddiad:**

Julie Owens

**Swydd:**

Pennaeth Gweinyddiaeth a'r  
Gyfraith

Swyddog Gwasanaethau  
Democrataidd

**Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau E-bost:**

01267 224010

[lrjones@sirgar.gov.uk](mailto:lrjones@sirgar.gov.uk)

01267 224088

[juowens@sirgar.gov.uk](mailto:juowens@sirgar.gov.uk)

# EXECUTIVE SUMMARY

## EDUCATION, YOUNG PEOPLE AND THE WELSH LANGUAGE SCRUTINY COMMITTEE

23 JUNE 2023

<p><b>EDUCATION, YOUNG PEOPLE AND THE WELSH LANGUAGE SCRUTINY COMMITTEE</b></p> <p><b>ANNUAL REPORT 2022/23</b></p>
---

The attached report has been prepared in order to comply with Article 6.2 of the County Council's Constitution which states that a scrutiny committee must:

*“Prepare an annual report giving an account of the Committee's activities over the previous year.”*

The report provides an overview of the work of the Education, Young People and the Welsh Language Scrutiny Committee during the 2022/23 municipal year and includes information on the following areas:

- Overview of the Work of the Committee;
- Other Scrutiny Activity;
- Development Sessions;
- Public Engagement;
- Challenges and Future Work;
- Support for the scrutiny function;
- Member attendance at meetings.

<b>DETAILED REPORT ATTACHED ?</b>	<b>YES</b>
-----------------------------------	------------

# IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: Linda Rees-Jones                      Head of Administration & Law

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>

**1. Policy, Crime & Disorder and Equalities** – In line with requirements of the County Council's Constitution.

**2. Legal** - In line with requirements of the County Council's Constitution.

## Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information List of Background Papers used in the preparation of this report:

### THESE ARE DETAILED BELOW

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Education & Children's Services Scrutiny Committee Reports and Minutes		Meetings from September 2015 onwards: <a href="https://democracy.carmarthenshire.gov.wales/ieListMeetings.aspx?Committeed=153">https://democracy.carmarthenshire.gov.wales/ieListMeetings.aspx?Committeed=153</a>

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg

## Adroddiad Blynyddol

2022 - 2023

### Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)

Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



Tudalen 79

## Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd.....	2
1. Cyflwyniad.....	4
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2022/23.....	4
2.1 Rôl Craffu.....	4
2.2 Y Blaengynllun Gwaith.....	5
2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg.....	6
2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol.....	6
2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2021/22.....	6
2.4.2 Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023/24.....	7
2.4.3 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2021/22.....	7
2.4.4 Adroddiadau Perfformiad 2022-23 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.....	8
2.4.5 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau.....	8
2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf.....	8
2.5.1 Adroddiadau Monitro'r Gyllideb.....	8
2.5.2 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 tan 2025/26.....	8
2.6 Addysg.....	9
2.6.1 Cymorth i ddatblygu'r cwricwlwm ar draws ysgolion yn Sir Gaerfyrddin.....	9
2.6.2 Adolygiad Ôl-16.....	9
2.6.3 Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC), gan gynnwys Cyllidebau Ysgol.....	10
2.6.4 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Anghenion Dysgu Ychwanegol.....	10
2.6.5 Gwerthuso Arolygiadau Estyn ar draws Ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a Lleoliadau Arbenigol yn Sir Gaerfyrddin.....	11
2.7 Gwasanaethau Plant.....	11
2.7.1 Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin 2022/23.....	11
2.8 Y Gymraeg.....	12
2.8.1 Polisi ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg.....	12
2.8.2 Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-28.....	12
3 Gweithgarwch Craffu Arall.....	13
3.1 Gorchwyl a Gorffen.....	13
3.2 Ymweliadau Safle.....	13
3.2.1 Proses adfer ysgolion yn dilyn y pandemig coronafeirws.....	13
3.3 Sesiynau Datblygu.....	14
4 Ymgysylltu â'r cyhoedd.....	15
5 Heriau.....	15
6 Gwaith yn y Dyfodol.....	15
7 Cymorth i'r Swyddogaeth Graffu.....	16
8 Presenoldeb.....	17



---

## Rhagair gan y Cadeirydd



Fel Cadeirydd y Pwyllgor, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ar gyfer blwyddyn y cyngor 2022/23.

Yn dilyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2022, croesawodd y Pwyllgor aelodau newydd a phrofiadol i graffu ar effeithiolrwydd darpariaeth yr Awdurdod. Hoffwn ddiolch i aelodau etholedig a chyfetholedig y Pwyllgor am eu cyfraniadau gwerthfawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Pwyllgor wedi croesawu'r dull craffu cyn gwneud penderfyniadau a gyflwynwyd ym mis Medi 2022. Mae hyn wedi rhoi cyfle i'r Pwyllgor fod yn rhagweithiol wrth ymwneud â

Blaengynllun Gwaith y Cabinet, a chraffu ar faterion perthnasol o'u dechrau. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi ei bynciau ei hun i ymchwilio iddynt, ac mae wedi parhau i asesu themâu parhaus.

Mae'r cyfnod hwn ar ôl Covid-19 wedi creu ei heriau ei hun ym mywydau ac addysg gydol oes ein plant a'n pobl ifanc. Datblygodd y Pwyllgor Flaengynllun Gwaith cynhwysfawr i ystyried amgylchiadau eithriadol y blynyddoedd diwethaf, ac i roi sylw i effeithiau parhaus yr epidemig ar ddysgwyr o bob oed.

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar y gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru a'r cymorth a ddarperir i ymateb i'r heriau sy'n wynebu ysgolion. Bu'n adolygu Strategaeth Wella yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant a oedd yn ceisio bwrw golwg ar gynnydd disgyblion, ac yn ystyried cynnig Dysgu Proffesiynol Sir Gaerfyrddin i ysgolion.

Cynhaliwyd gweithdy i aelodau ynghylch yr Adolygiad o Addysg Ôl-16 a oedd yn ystyried cyfraniadau ysgolion uwchradd mewn ymateb i gwestiynau am eu darpariaeth a'u profiad addysgol. Cyfrannodd sylwadau'r Pwyllgor at yr Adolygiad cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet.

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r newid o Ddatganiadau Anghenion Addysg Arbennig i Gynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Hefyd adolygodd y Pwyllgor y data ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd a lleoliadau arbenigol a'r cynnydd yn y galw am ddarpariaeth Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar ganlyniadau arolygiadau Estyn yn Sir Gaerfyrddin ers 2018 a'u heffaith ar strategaethau gwella ysgolion, ac yn adolygu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuencid a oedd yn darparu ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuencid ledled Sir Gaerfyrddin.

Cafodd Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg ei hadolygu gan y Pwyllgor a bydd y cynllun gweithredu i gyflawni nodau'r strategaeth yn cael ei fonitro yn ystod ei gyfnod gweithredu. Bu'r Pwyllgor yn craffu ar bolisi'r Cyngor ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg gan ei gymeradwyo cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Pwyllgor hefyd wedi adolygu argymhellion Grwpiau Gorchwyl a Gorffen perthnasol y gorffennol, ac wedi derbyn cyflwyniad ysgol ar ymateb i heriau ar ôl Covid-19. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor am nifer o seminarau â thema a ddarparwyd gan swyddogion. Hoffwn ddiolch i'r holl swyddogion ar draws maes gorchwyl y Pwyllgor Craffu

hwn am eu cyfraniad a'u proffesiynoldeb wrth gefnogi gwaith aelodau drwy'r cyfnod hwn o newid.

Mae maes gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg wedi'i sefydlu'n dda yn ystod 2022/23, ac mae'r aelodau wedi cyfrannu'n gadarnhaol ac yn frwdfrydig at ddatblygu polisiau a gwneud penderfyniadau. Edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio ag Aelodau, Aelodau Cyfetholedig a Swyddogion yn y flwyddyn i ddod.

**Y Cyngorydd Carys Jones**

**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu "*baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol*".

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan y Cynghorydd Carys Jones ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig a 5 o Aelodau Cyfetholedig â Phleidlais (3 rhiant-lywodraethwr etholedig, 1 cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru ac 1 cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig). Mae Aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios perthnasol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

# 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2022/23

## 2.1 Rôl Craffu

Diweddarwyd meysydd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn gyfrifol am graffu ar bortffolio Addysg a'r Gymraeg y Cabinet a'r meysydd gwasanaeth perthnasol:

Ysgolion a Gwasanaethau Addysg o 3 - 19	Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion
Gwella Ysgolion, Trefniadaeth a Pherfformiad	Cynllun Strategol a Fforwm y Gymraeg mewn Addysg
Addysg, Lles a Chynhwysiant	Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan gynnwys Cymraeg i Oedolion
Cynnal Ysgolion a Gwasanaethau Llywodraethwyr	Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid
Addysg Feithrin a Safonau	Derbyn Disgyblion i Ysgolion
Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)	Gwasanaethau Ymddygiadol
Consortia Rhanbarthol	Presenoldeb yn yr Ysgol

Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sir Gaerfyrddin	Addysg Ôl-16 a Chyllid a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
Adrodd ar ddatblygiad y Gymraeg / Safonau	Y Gwasanaeth Cerdd
Ysgolion Iach	Gwasanaethau Arlwy Mewn Ysgolion
Estyn	Data a systemau addysg
Seicoleg Addysg	Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion
Tîm Addysg a Llesiant	

Yn unol â'i feysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ceisio:

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio.
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw.
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor.
- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol.
- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau.
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori.
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

## 2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ei hun ar gyfer blwyddyn y cyngor 2022/23 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

Yn hyn o beth, penderfynodd y Pwyllgor ddsbarthu adroddiadau cyfnodol ynghylch perfformiad a monitro'r gyllideb i aelodau y tu allan i'r rhaglen cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y broses hon yn golygu bod modd gosod unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan aelodau ar yr agenda ffurfiol i'w hystyried ymhellach, fel y bo'n briodol. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

## 2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg

Cynhaliodd y Pwyllgor bum cyfarfod ffurfiol ym mlwyddyn y cyngor 2022/23.

Cynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Ymchwiliadau Craffu Un Diwrnod ac Ymweliadau Safle â sefydliadau a ddaw o fewn ei faes gorchwyl ynghyd â sesiynau datblygu i aelodau a gweithdai.

## 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

### 2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2021/22

Ym mis Rhagfyr 2022, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2021/22 a oedd wedi ei lunio i fodloni'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran 13 Amcan Llesiant y Cyngor yn erbyn cefndir o amgylchiadau digynsail yn sgil y pandemig coronafeirws, ynghyd â hunanasesiad y Cyngor yn erbyn gofynion perfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y 5 Amcan Llesiant sy'n dod o fewn maes gorchwyl y pwyllgor, sef:

<b>AMCAN LLESIAENT 1:</b>	Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yr gynnar mewn bywyd.
<b>AMCAN LLESIAENT 2:</b>	Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.
<b>AMCAN LLESIAENT 3:</b>	Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad, a deilliannau i'r holl ddysgwyr.
<b>AMCAN LLESIAENT 4:</b>	Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gae gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.

**Canlyniad:**

**Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023 argymhellodd y Cabinet i'r Cyngor y dylid derbyn Adroddiad Blynyddol 2021/22, a fabwysiadwyd wedyn gan y Cyngor ym mis Ionawr 2023.**

#### **2.4.2 Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023/24**

Ym mis Mawrth 2023 bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Is-adrannol Drafft sy'n berthnasol i'r gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Plant ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:

- Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
- Mynediad i Addysg
- Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr
- Gwasanaethau Plant

Roedd y cynlluniau hyn yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w gweithredu ym mhob is-adran er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer yr Is-adran a gwneud sylwadau yn eu cylch.

**Canlyniad:**

**Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Is-adrannol Drafft sy'n berthnasol i'r gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Plant ar gyfer 2023/24.**

#### **2.4.3 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2021/22**

Yn unol â'r gofyniad statudol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu adroddiad blynyddol ar ddarparu gwasanaethau, perfformiad a chynlluniau gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, dosbarthwyd adroddiad drwy e-bost i'w ystyried gan y Pwyllgor ym mis Hydref 2022.

**Canlyniad:**

**Yn unol ag argymhelliad y Cabinet ym mis Hydref 2022, cafodd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2021/22 ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2022.**

#### 2.4.4 Adroddiadau Perfformiad 2022-23 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor eu dosbarthu drwy e-bost i aelodau fel a ganlyn:

- Rhagfyr 2022 – Monitro Perfformiad Chwarter 1 2022/23
- Ionawr 2023 – Monitro Perfformiad Chwarter 2 2022/23
- Mai 2023 – Monitro Perfformiad Chwarter 3 2022/23

Roedd yr adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod. Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sydd wedi'i ymgorffori yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

#### 2.4.5 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor gwnaed ceisiadau am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu. Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Camau Gweithredu a'r Atgyfeiriadau i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2023 a mis Mai 2023 a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

### 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

#### 2.5.1 Adroddiadau Monitro'r Gyllideb

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, dosbarthwyd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol i aelodau fel a ganlyn:

- Hydref 2022 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2022, ynghyd â sefyllfa alldro Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22;
- Rhagfyr 2022 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2022;
- Ionawr 2023 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2022; a
- Mai 2023 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Rhagfyr 2022.

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

#### 2.5.2 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 tan 2025/26

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/2026.

## **Canlyniad:**

**Fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd gan yr Awdurdod ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26, ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth a chymeradwyodd gynigion y gyllideb, fel y'u cyflwynwyd. Yn dilyn hynny cafodd Strategaeth y Gyllideb ei mabwysiadu gan y Cabinet a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023, yn amodol ar wneud rhai newidiadau a lleihau ardoll arfaethedig y dreth gyngor.**

## **2.6 Addysg**

### **2.6.1 Cymorth i ddatblygu'r cwricwlwm ar draws ysgolion yn Sir Gaerfyrddin**

Ym mis Ionawr 2023 bu'r Pwyllgor yn adolygu'r cymorth oedd ar gael i ysgolion, lleoliadau arbenigol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion Sir Gaerfyrddin gan y Cyngor Sir a'r consortiwm rhanbarthol, Partneriaeth, wrth iddynt hwyluso gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Roedd datblygiad y Cwricwlwm newydd i Gymru yn ceisio sicrhau addysgeg gadarn ac effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion unigol ar bob lefel, er mwyn galluogi ysgolion i symud ymlaen yn effeithiol yn unol ag amcanion y Genhadaeth Genedlaethol. Yn unol â hynny, roedd y Cwricwlwm newydd i Gymru wedi'i drefnu ar sail 6 Maes Dysgu a Phrofiad, ac yn cael ei ategu gan Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol a'r Sgiliau Ehangach. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth fanwl i natur y cymorth a ddarperir i fynd i'r afael â'r heriau mae ysgolion yn eu hwynebu wrth gadw at yr ystod o elfennau cymhleth a gorfodol sy'n ofynnol wrth ddatblygu a darparu'r cwricwlwm newydd. Yn hyn o beth, darparwyd trosolwg o Gynllun Busnes Partneriaeth i'r Pwyllgor. Roedd y cwricwlwm newydd yn greiddiol i amcanion strategol a Chynnig Dysgu Proffesiynol Partneriaeth, yn ogystal â darparu cymorth pwrpasol, lleol i ysgolion.

Bu'r Pwyllgor yn adolygu Strategaeth Wella Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yr Awdurdod, a oedd yn cyd-fynd â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwella Ysgolion a'r nod oedd gweithio ochr yn ochr ag ysgolion i fwrw golwg ar gynnydd y disgyblion o ganlyniad i ddarpariaeth y cwricwlwm. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gynig Dysgu Proffesiynol Sir Gaerfyrddin ar gyfer ysgolion a'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2022-2023.

Croesawodd y Pwyllgor y gwaith cadarnhaol oedd yn cael ei ddatblygu ar draws yr ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, ond roedd yn cael ei gydnabod bod lefel y cynnydd yn amrywio ar draws ysgolion.

### **2.6.2 Adolygiad Ôl-16**

Ym mis Mawrth 2023, ac yn dilyn y gweithdy ynghylch yr Adolygiad Ôl-16 a gynhaliwyd i aelodau, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad interim ynghylch yr Adolygiad o Addysg Ôl-16 a oedd wedi'i gynnal yn unol â nodau'r Cynllun Busnes Addysg a Gwasanaethau Plant i greu ysgolion a gwasanaethau cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed i sefydlu egwyddorion cyffredinol o ran Hawliau ar gyfer Dysgu i ddatblygu'r dirwedd ôl-16 yn Sir Gaerfyrddin ac yn cynnig strwythur llywodraethu wedi'i ailfodelu yn seiliedig ar yr adborth a roddwyd gan ysgolion uwchradd ynghylch yr hyn yr oedd dysgwyr yn rhoi gwerth arno yn eu profiad a'u darpariaeth addysgol. Yn hyn o beth, cafwyd crynodeb o'r themâu allweddol a oedd yn sail i'r egwyddorion hynny fel a ganlyn:



- Perthynas, Perthyn, Llesiant ac Ethos.
- Gwell Canllawiau Llwybrau a Sgiliau ar gyfer Annibyniaeth ac ar gyfer llwyddiant academaidd, a llwyddiant mewn gwaith a bywyd.
- Tegwch drwy fwy o opsiynau Cymraeg.
- Tegwch drwy ystod eang o opsiynau, yn enwedig opsiynau galwedigaethol.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y prinder cenedlaethol parhaus o ran recriwtio athrawon a staff addysgu a bydd yn rhoi rhagor o sylw i'r mater hwn fel rhan o'i Flaengynllun Gwaith ar gyfer 2023/24.

### **Canlyniad:**

**Roedd sylwadau'r Pwyllgor, ynghyd ag adborth rhanddeiliaid a ddarparwyd fel rhan o broses ymgynghori gynhwysfawr, wedi helpu i fireinio'r Adolygiad Ôl-16. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Adolygiad o Addysg Ôl-16 sydd wedi'i gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried ymhellach.**

### **2.6.3 Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC), gan gynnwys Cyllidebau Ysgol**

Ym mis Mawrth 2023 bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r Rhaglen Trawsnewid Ysgolion a gyflwynwyd yn 2017 i gynorthwyo ysgolion i wynebu heriau ariannol sylweddol. Roedd y rhaglen yn ceisio defnyddio egwyddorion trawsnewid craidd yr Awdurdod o weithio ar y cyd a herio arferion presennol i helpu ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd i arbed costau a gwelliannau i wasanaethau, drwy ddull cynaliadwy, ar draws amrywiaeth eang o weithgareddau, yn ogystal â chynnal deilliannau da i ddisgyblion.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad a oedd yn nodi'r cynnydd a oedd wedi'i wneud hyd yn hyn i gyflawni'r meysydd blaenoriaeth allweddol a nodwyd. Rhoddodd swyddogion sylw i amrywiaeth o ymholiadau a sylwadau a oedd yn ymwneud â meincnodi, cyfrifoldebau ysgolion a bennir drwy ddeddfwriaeth, cyfyngiadau cyllidebol a materion o ran capasiti.

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd cyfathrebu'n glir ac ymgysylltu ag ysgolion fel ffordd o rannu arferion gorau a chefnogi ysgolion drwy'r broses drawsnewid.

### **2.6.4 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Ym mis Mai 2023 ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariad cynnydd ynghylch gweithredu'r darpariaethau sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a oedd yn ceisio trawsnewid disgwyliadau, profiadau a deilliannau plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad a oedd yn nodi'r cynnydd o ran newid o Ddatganiadau Anghenion Addysg Arbennig i Gynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer disgyblion ag ADY. Byddai'r broses weithredu'n cael ei rhoi ar waith fesul cam hyd at fis Awst 2025 a byddai'n arwain at dri chanlyniad categoreiddio posibl ar gyfer plant a phobl ifanc. Adolygodd y Pwyllgor yr adborth a ddarparwyd ynghylch pa mor llwyddiannus oedd y broses o drawsnewid i'r system ADY newydd, a oedd yn cynnwys trosolwg o'r meysydd sy'n gweithio'n dda a'r rhai y mae angen rhoi sylw iddynt o ran rôl y Swyddogion a'r Cydgysylltwyr ADY, darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ac Ôl-

16 ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, hyfforddiant a chymorth, yn ogystal â'r gwaith partneriaeth parhaus gyda gweithwyr ieuchyd proffesiynol. Hefyd adolygodd y Pwyllgor y data ystadegol ar ddisgyblion ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd a'r rhai y mae angen cymorth lleoliad arbenigol arnynt a chydabuwyd bod cynnydd sylweddol yn y galw am ddarpariaeth Anhwylderau'r Sbectrum Awtistig ers Medi 2021.

Rhododd swyddogion sylw i amrywiaeth o ymholiadau a sylwadau a oedd yn ymwneud â'r broses, meini prawf ac ansawdd y Cynlluniau Datblygu Unigol, materion o ran capasiti mewn lleoliadau arbenigol, pwysau cyllidebol a hawl i ddarpariaeth arbenigol ôl-16. Mynegwyd pryderon hefyd gan y Pwyllgor ynghylch diffyg cydraddoldeb rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg o ran gallu cael mynediad at amrywiaeth eang o adnoddau ac asesiadau safonedig i gefnogi nodi ADY yn gynnar ac yn gywir, o'i gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg.

### **Canlyniadau:**

**Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau sy'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch ariannu darpariaeth ôl-16.**

**Bydd diweddariad pellach ar weithredu ADY yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ystod 2023/24.**

## **2.6.5 Gwerthuso Arolygiadau Estyn ar draws Ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a Lleoliadau Arbenigol yn Sir Gaerfyrddin**

Ym mis Mai 2023 cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o ganlyniadau arolygiadau Estyn yn y sir yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod safonau ac arweinyddiaeth yn cael eu hystyried i fod yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o ysgolion, ac mai dim ond lleiafrif o ysgolion oedd wedi cael eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol ar gyfer gwella. Rhoddwyd trosolwg o'r fframwaith arolygu newydd a fabwysiadwyd gan Estyn ym mis Mawrth 2022 i'r Pwyllgor, ynghyd â chrynodeb o'r arfer cryf neu effeithiol a nodwyd gan arolygwyr Estyn i'w rannu ag eraill.

Adolygodd y Pwyllgor yr argymhellion gwella ysgolion a ddarparwyd gan Estyn ers mis Mawrth 2022 a rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod holl ganlyniadau Estyn yn dylanwadu ar strategaethau gwella yr is-adran ar gyfer ysgolion, ffyrdd o weithio a'r rhaglen gymorth Dysgu Proffesiynol.

## **2.7 Gwasanaethau Plant**

### **2.7.1 Cynllun Cyfiawnder Ieuencid Sir Gaerfyrddin 2022/23**

Ym mis Rhagfyr 2022 ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Cyfiawnder Ieuencid Sir Gaerfyrddin a oedd wedi'i lunio yn unol â gofynion deddfwriaethol Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuencid yn amlinellu'r Gwasanaeth Cymorth Ieuencid a'r Tîm Cyfiawnder Ieuencid a ddarparwyd o dan un strwythur rheoli, a oedd yn darparu dull cyfannol o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuencid ledled Sir Gaerfyrddin. Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad o'r maes gorchwyl, y strwythur, y trefniadau llywodraethu a'r model cyllido ar gyfer

darparu gwasanaethau cymorth ieuencid. Roedd Adran 8 o'r Cynllun Cyfiawnder Ieuencid yn manylu ar berfformiad y bartneriaeth yn ystod 2021/22, a hefyd yn nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion cynllunio gwelliannau am y flwyddyn i ddod, yn unol â'r egwyddorion 'plentyn yn gyntaf' cyffredinol ac ethos o welliant parhaus.

### **Canlyniad:**

**Wrth adolygu'r prif feysydd gweithgarwch, cafodd y Pwyllgor ddealltwriaeth o waith hanfodol parhaus y bartneriaeth i geisio lliniaru effaith barhaus y pandemig coronafeirws er mwyn diogelu'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed a chymhleth ar draws y sir.**

## **2.8 Y Gymraeg**

### **2.8.1 Polisi ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg**

Ym mis Mai 2023 bu'r Pwyllgor yn ystyried Polisi'r Cyngor ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg a baratowyd er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd y Polisi yn darparu dull cyson o ymdrin â'r Gymraeg ar draws grantiau amrywiol y Cyngor, yn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg wrth ddyrannu grantiau a hefyd yn galluogi gweithwyr y Cyngor i gynorthwyo cyrff trydydd parti i hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol yn eu gweithrediadau. Yn hyn o beth, roedd y Polisi yn cyd-fynd â Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor 2023-28 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddodd y Pwyllgor adborth gwerthfawr mewn perthynas â'r meini prawf cymhwysedd a'r broses ymgeisio am grant.

### **Canlyniad:**

**Yn dilyn yr adborth a ddarparwyd gan y Pwyllgor, cafodd y Polisi ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg ei gymeradwyo a'i gyfeirio at y Cabinet i'w gymeradwyo.**

### **2.8.2 Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-28**

Yn ei gyfarfod ym mis Mai 2023, adolygodd y Pwyllgor Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer 2023-28, a oedd wedi'i pharatoi ar y cyd â Fforwm Strategol y Gymraeg fel rhan o gyfrifoldebau'r Cyngor drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn dilyn hynny. Roedd y strategaeth yn nodi sut bwriadai'r Cyngor hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ledled y sir.

Roedd y Strategaeth yn ceisio ysgogi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, balchder a hyder yn y Gymraeg, mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a'r gweithlu fel 'norm' a chymunedau Cymraeg sy'n ffynnu. Adolygodd y Pwyllgor y 9 ffrwd waith a fyddai'n cael eu gweithredu fel cynllun gweithredu i gyflawni nodau'r strategaeth yn ystod ei gyfnod gweithredu.

Croesawodd y Pwyllgor y strategaeth fel ffordd o gael effaith gadarnhaol ar hyfywedd y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin a phwysleisiodd bwysigrwydd rhoi cyfle i drigolion glywed a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y gostyngiad yn narpariaeth Cymraeg i Oedolion o ran dosbarthiadau wyneb yn wyneb, lleol a bydd adroddiad pellach ar y mater hwn yn cael ei adolygu fel rhan o Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24.

## **Canlyniad:**

**Yn dilyn yr adborth a ddarparwyd gan y Pwyllgor, cafodd Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer 2023-28 ei chymeradwyo a'i chyfeirio at y Cabinet i'w chymeradwyo.**

## **3 Gweithgarwch Craffu Arall**

### **3.1 Gorchwyl a Gorffen**

Ni chynhaliodd y Pwyllgor adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn ystod 2022/23. Yn ei sesiwn cynllunio Blaengynllun Gwaith a gynhaliwyd ym mis Mai 2023, adolygodd y Pwyllgor y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran gweithredu'r argymhellion a oedd yn deillio o'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen canlynol:

- Adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer Addysg Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chyfleoedd Chwarae – a gynhaliwyd yn 2018/19
- Adolygiad o'r Broses Ymgynghori ar Drefniadaeth Ysgolion – a gynhaliwyd yn 2021/22

### **3.2 Ymweliadau Safle**

Oherwydd effaith barhaus y pandemig coronafeirws, barnwyd nad oedd yn briodol cynnal ymweliadau safle yn ystod blwyddyn y cyngor. Fodd bynnag, cyflwynwyd strwythur amgen, ar ffurf sesiynau ymgysylltu ag ysgolion ar-lein a hybrid, fel mesur dros dro i alluogi'r Pwyllgor i barhau â'i swyddogaeth gwerthuso a gwella ysgolion.

Cynhaliwyd y sesiwn ymgysylltu ganlynol ag ysgol yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23:

#### **3.2.1 Proses adfer ysgolion yn dilyn y pandemig coronafeirws**

Ym mis Hydref 2022, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Ysgol Bryn Teg a oedd yn canolbwyntio ar y ffordd yr oedd yr ysgol wedi cefnogi lles disgyblion, teuluoedd a staff ers Covid-19. Roedd y cyflwyniad yn manylu ar y daith gwella sylweddol a gyflawnwyd yn yr ysgol, er gwaethaf heriau ariannol, i ddod yn hynod effeithiol o ran ei dysgu a'i threfniadaeth, ac roedd wedi croesawu newid er mwyn cyflawni diwylliant o ragoriaeth.

Roedd y sesiwn ymgysylltu yn canolbwyntio ar ganfyddiadau arolygiad Estyn a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022 yn y meysydd canlynol:

- Arweinyddiaeth
- Gofal, Cymorth ac Arweiniad
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Lles ac Agweddau at Ddysgu
- Dysgu

## Canlyniad:

Cynyddodd y sesiwn ymgysylltu ag ysgol ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r arferion arloesol a gyflwynwyd i gefnogi a gwella lles disgyblion yn dilyn y pandemig coronafeirws. Hefyd, cafodd y Pwyllgor ddealltwriaeth fanwl o'r prif heriau, pwysau a blaenoriaethau a nodwyd gan yr ysgolion a oedd yn gysylltiedig â chynnydd yn nifer y plant ag anghenion ychwanegol, yr argyfwng costau byw, cyllidebau llai a'r orddibyniaeth ar gyllid grant. Hefyd, barnwyd bod mynediad at wasanaethau o ansawdd, yn unigol ac ar y cyd, yn anoddach yn dilyn y pandemig coronafeirws.

Bydd rhaglen o ymweliadau ysgol yn aildechrau fel rhan o Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24.

### 3.3 Sesiynau Datblygu

Yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, darparwyd Rhaglen Sefydlu gynhwysfawr i'r Cynghorwyr ar gyfer yr holl aelodau etholedig. Cynlluniwyd y rhaglen ar gyfer Cynghorwyr newydd yn bennaf, ond roedd hefyd yn agored i'r rheiny a gafodd eu hailethol. Nod y rhaglen sefydlu oedd rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i'r aelodau er mwyn eu cynorthwyo i wasanaethu fel Cynghorydd. Roedd yr hyfforddiant a oedd yn berthnasol i waith y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn cynnwys trosolwg o'r swyddogaeth graffu, Rheoli'r Trysorlys a Chyllidebau a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys y Gymraeg). Hefyd, cynhaliwyd sawl seminar ynghylch y gyllideb yn ystod mis Ionawr 2023 fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2023/2024 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

Yn ogystal, ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg, darparwyd y sesiynau canlynol yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23:

- **Hunanwerthuso a Data Ysgolion (18/10/2022):** Rhoddodd y gweithdy hwn drosolwg o'r ffordd yr oedd yr adran Addysg wedi sefydlu hunanwerthuso fel rhan annatod o'i phrosesau cynllunio busnes ac wedi addasu ei dull gweithredu trwy driongli penderfyniadau o ystod ehangach o safbwyntiau.
- **Cyflwyniad i Graffu (01/12/2022):** Trosolwg o rôl a maes gorchwyl wedi'i ddiweddarau y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, gan gynnwys trosolwg o'r broses cyn gwneud penderfyniadau.
- **Adolygiad Ôl-16 (10/02/2023):** Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ystyried canfyddiadau cychwynnol yr Adolygiad Ôl-16, gan gwmpasu Cymwysterau Galwedigaethol a'r rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)
- **Y Rhaglen Moderneiddio Addysg (18/10/22, 02/12/22 a 05/05/2023) –** Roedd y gweithdy hwn yn gyfle gwerthfawr i'r Aelodau gyfrannu at yr adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Cafodd yr Aelodau drosolwg o'r cefndir, y sefyllfa bresennol, heriau, dulliau ymgysylltu, ystyriaethau cyllidebol a blaenoriaethau'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Adolygwyd y meini prawf hyfywedd a buddsoddi drafft yn unol â dyhead y Cyngor o sicrhau ystadau ysgolion hyfyw, cynaliadwy ac effeithlon.

---

## 4. Ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2022/23, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystod o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori/cyfranogi cyhoeddus. Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynllun Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu/>

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd adran gyfathrebu yr Awdurdod gymorth marchnata digidol i swyddogaeth graffu yr Awdurdod gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd.

---

## 5. Heriau

Un o'r heriau a wynebodd y Sir yn 2022/23 oedd effaith barhaus y pandemig coronafeirws ar ddarparu gwasanaethau i drigolion Sir Gaerfyrddin ac ymdrechion y cyngor i ddychwelyd i lefelau gwasanaeth a ddarparwyd cyn y pandemig. O ganlyniad, parhaodd yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant i fod dan bwysau drwy gydol blwyddyn y cyngor. Serch hynny, mae'r adran wedi addasu a datblygu atebion arloesol yn ystod amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ledled Sir Gaerfyrddin.

Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 cafodd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg garfan newydd o aelodau. Bu'r aelodau newydd eu hethol yn gweithio gyda gweddill y Pwyllgor i ymgysylltu â'r broses gwneud penderfyniadau a'r pynciau sydd o fewn maes gorchwyl portffolio'r Pwyllgor Craffu. Fodd bynnag, mae'r flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi bod yn gyfnod heriol yn dilyn ad-drefnu maes gorchwyl y Pwyllgor, sydd bellach yn cynnwys y Gymraeg. Ar ben hynny, mae'r broses adrodd wedi newid o'r drefn o gyfeirio adroddiadau'n systematig i broses cyn gwneud penderfyniadau. Er bod y Pwyllgor wedi croesawu'r newidiadau hyn, mae'r prosesau diwygiedig yn dal i gael eu sefydlu ar draws y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod yn adeiladol yn ei rôl o ran craffu ar berfformiad, sydd wedi hwyluso'r adran ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at bolisiâu a phenderfyniadau. Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

---

## 6. Gwaith yn y Dyfodol

STRATEGAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 10 MLYNEDD (CYN-YMGYNGHORI)	Rhoi gweledigaeth i'r aelodau ar sut y byddwn yn darparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y degawd nesaf. Bydd y ddogfen yn rhoi manylion am y meysydd canlynol: Cyflwyniad, Datganiad Gweledigaeth, y gwasanaethau mae pobl yn eu derbyn, Modelau gofal Gwaith Cymdeithasol, Diogelu, Integreiddio a Phartneriaethau, Gweithlu a Chynllun Gweithredu	Cabinet 17 Gorff 2023	Nac ydy	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfarwyddwr Cymunedau Silvana Sauro, Rhelowr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau ssauro@carmarthenshire.gov.uk
YR ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER Y CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG	Daeth Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022-32 yn weithredol ar 1.9.22. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol gyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i Lywodraeth Cymru. Ystyrir ei fod yn berthnasol i gyflwyno'r adroddiad hwn i'r broses Graffu cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru	Cabinet 17 Gorff 2023	Nac ydy	Addysg a'r Gymraeg	Cyfarwyddwr Addysg a Phlant Aeron Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr jarees@carmarthenshire.gov.uk
YR ADRODDIAD ARFARNIADAU O ARDALOEDD CADWRAETH	Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu deg Ardal Gadwraeth ddynodedig ar draws y Sir.	Cabinet 17 Gorff 2023	Nac ydy	Materion Gwledig a Pholisi Cynllunio	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Rhodri Griffiths,

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
	<p>Mae'n nodi canlyniad yr adolygiad a'r ymarfer ymgynghori dilynol gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arfarniad cymeriad;</li> <li>• Adolygiad o ffiniau a</li> <li>• Chynllun Rheoli.</li> </ul> <p>Mae'r adroddiad wrth nodi'r uchod yn nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus a'r camau nesaf gan gynnwys y prosesau sydd eu hangen i ddiwygio unrhyw un o ddynodiadau'r Ardal Gadwraeth</p>				Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd RDGriffiths@carmarthenshire.gov.uk
EFFAITH COVID 19 AR GONTRACTWYR - GWAITH MAWR	Bydd adroddiad yn cael ei lunio i archwilio'r effaith ariannol ar gontractwyr o ganlyniad i bandemig Covid-19. Bydd yr adroddiad yn cadarnhau'r darpariaethau contract presennol sy'n cael eu gorfodi gan yr Awdurdod o'u cymharu ag amrywiol weithdrefnau cyngor a rhyddhad y llywodraeth. Er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i randdeiliaid, bydd yr adroddiad yn nodi'r goblygiadau posibl ar gyfer mabwysiadu dulliau cymorth contractwyr i liniaru effaith ariannol Covid-19 a cheisio penderfyniad ynghylch gweithredu'r dulliau hyn.	Cabinet 17 Gorff 2023	Nac ydy	Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Jason G. Jones JGJones@carmartenshire.gov.uk
ADRODDIAD DDLYNYDDOL YNGHYLCH	Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar weithgareddau rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022-2023	Cabinet 4 Medi 2023	Nac ydy	Adnoddau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

Tudalen 129

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODAETH 2022/2023					Anthony Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol AParnell@carmarthenshire.gov.uk
ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR SIR 2022-23	Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yn ystod 2022-23. Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i ni gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ein Amcanion Llesiant. Yn ogystal, dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae'n ofynnol i ni adrodd ar berfformiad ar sail arddull hunan-asesu. Mae'r adroddiad hyn yn anelu i gwrdd â'r gofynion hyn o fewn un ddogfen.	Cabinet 4 Medi 2023	Nac ydy	Trefniadaeth a'r Gweithlu	Prif Weithredwr Gwyneth Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth GAyers@carmarthenshire.gov.uk
STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL	Ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ac i gymeradwyo Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft Cyngor Sir Caerfyrddin. Ceisir cymeradwyaeth hefyd gynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus ffurfiol mewn perthynas â'r Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft yn unol â gofynion statudol.	Cabinet 4 Medi 2023	Nac ydy	Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Daniel John, Pennaeth Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol Dros Dro DWJohn@carmarthenshire.gov.uk

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
CYNNYDD O RAN Y RHESTR CYFRADDAU MÂN WAITH	Mae'r adroddiad yn ystyried y cynnydd chwyddiant a bennwyd yn y Fframwaith Mân Waith o'r dechrau a'r effaith ar gyllidebau	Cabinet 4 Medi 2023	Nac ydy	Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Jason G. Jones JGJones@carmarthenshire.gov.uk
GORCHYMYN DIOGELU GOFOD CYHOEDDUS	Mae'r Gorchymyn, sy'n rhoi pwerau i'r heddlu fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsteddau sy'n ymwneud ag alcohol yng nghanol tref Llanelli, yn dod i ben 30 Medi 2023.  Cynigir ymestyn y Gorchymyn. Bydd ei effaith yn cael ei werthuso a bydd ystyriaeth o'r ffin daearyddol bresennol yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol rhwng nawr a Medi 2023.	Cabinet 4 Medi 2023	Nac ydy	Trefniadaeth a'r Gweithlu	Prif Weithredwr Gwyneth Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth GAyers@carmarthenshire.gov.uk
CYNNIG AMGEN I ADDYSG AWYR AGORED	Pwrpas yr adroddiad hwn yw adolygu'r hyn a gynigir ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Caerfyrddin o ran Addysg Awyr Agored ac archwilio opsiynau ar gyfer gwasanaeth wedi'i ail-fodelu o fewn yr adnoddau presennol.	Cabinet 18 Medi 2023	Nac ydy	Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth	Cyfarwyddwr Cymunedau Ian Jones, Pennaeth Hamdden IJones@carmarthenshire.gov.uk
AIL GARTREFI A LLETY GWYLIU YN SIR CAERFYRDDIN	Cyflwyno adroddiad sy'n tynnu sylw at y newidiadau cefndir a deddfwriaethol a pholisi ar yr ail gartrefi a llety gwyliau ac amlygu'r ystyriaeth, gofynion tystiolaeth a'r camau nesaf wrth nodi a mynd i'r afael â'r	Cabinet 18 Medi 2023	Nac ydy	Materion Gwledig a Pholisi Cynllunio	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Ian R Llewelyn, Rheolwr Blaengynllunio

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
	heriau i gymunedau Sir Gaerfyrddin.				IRLlewelyn@sirgar.gov.uk
CYNLLUN RHEOLI TRAETHLIN-2; DIWEDDARIAD AR EI GYFLWYNO.	Fel aelod o Grŵp Peirianeg Arfordirol Abertawe a Bae Caerfyrddin ac awdurdod rheoli risg arfordirol, mae gan Sir Gaerfyrddin ddyletswydd i gyflawni camau gweithredu o fewn y CRhT2. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at gamau gweithredu CCC, y perchnogion gweithredu a'n cynnydd a'n dull gweithredu sy'n cael eu cymryd i reoli ein harfordir.	Cabinet 18 Medi 2023	Nac ydy	Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Ben Kathrens, Rheolwr Amddiffyn Rhag Llifogydd Ac Amddiffyn yr Arfordir BKathrens@carmarthenshire.gov.uk
ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2023 I MEHEFIN 30AIN 2023	I ddarparu y gwybodaeth diweddaraf i aelodau, ynglyn a gweithgareddau'r adran Rheoli'r Trysorlys yn ystod y cyfnod Ebrill 1af 2023 i Mehefin 30ain 2023	Cabinet 18 Medi 2023	Nac ydy	Adnoddau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Anthony Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol AParnell@carmarthenshire.gov.uk
STRATEGAETH GWEITHLU 2023 2026	Mae ein Strategaeth Gweithlu yn disgrifio sut rydym yn bwriadu datblygu ein gweithlu presennol ac yn y dyfodol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau, yr amgylchedd, a'r gwerthoedd craidd cywir i	Cabinet 18 Medi 2023	Nac ydy	Trefniadaeth a'r Gweithlu	Prif Weithredwr Paul R Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a

Ffôn: 01497 128



Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
	gyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol.				Pherfformiad) prthomas@carmarthenshire.gov.uk
DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2023/24	I ddarparu'r newyddion ynglyn a sefyllfa gyllideb ddiweddaraf y rhaglen gyfalaf 2023/24, ar 30 Mehefin 2023	Cabinet 2 Hyd 2023	Nac ydy	Adnoddau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Randal Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol RHemingway@carmarthenshire.gov.uk
ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR	I ddarparu'r newyddion i'r Cabinet ynglyn a sefyllfa diweddaraf cyllideb 2023/24, ar 30 Mehefin 2023	Cabinet 2 Hyd 2023	Nac ydy	Adnoddau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Randal Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol RHemingway@carmarthenshire.gov.uk
STRATEGAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL	Rhoi gweledigaeth i'r aelodau ar sut y byddwn yn darparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol yn	Cabinet 16 Hyd 2023	Nac ydy	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfarwyddwr Cymunedau Silvana Sauro,

Tudalen 1 o 9

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
10 MLYNEDD (ÔL-YMGYNGHORIAD )	ystod y degawd nesaf. Bydd y ddogfen yn rhoi manylion am y meysydd canlynol: Cyflwyniad, Datganiad Gweledigaeth, y gwasanaethau mae pobl yn eu derbyn, Modelau gofal Gwaith Cymdeithasol, Diogelu, Integreiddio a Phartneriaethau, Gweithlu a Chynllun Gweithredu				Rhelowr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau <a href="mailto:ssauro@carmarthenshire.gov.uk">ssauro@carmarthenshire.gov.uk</a>
STRATEGAETH HAMDDEN, DIWYLLIANT A HAMDDEN AWYR AGORED – ERS YMGYNGHORI	Mae'r ddogfen yn darparu fframwaith i'r gwasanaeth weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored wedi'i halinio'n strategol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.	Cabinet 16 Hyd 2023	Nac ydy	Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth	Cyfarwyddwr Cymunedau Ian Jones, Pennaeth Hamdden <a href="mailto:IJones@carmarthenshire.gov.uk">IJones@carmarthenshire.gov.uk</a>
POLISI YNGHYLCH TALIADAU AM WASANAETHAU	Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Polisi newydd ynghylch Taliadau am Wasanaethau. Mae'r Polisi yn nodi'r dull o osod a chasglu'r taliadau am wasanaethau. Y nod yw sicrhau bod y Taliadau am Wasanaethau yn glir, yn rhesymol, yn atebol ac yn adlewyrchu costau gwirioneddol.	Cabinet 16 Hyd 2023	Nac ydy	Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi	Cyfarwyddwr Cymunedau Jonathan Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd <a href="mailto:JMorgan@carmarthenshire.gov.uk">JMorgan@carmarthenshire.gov.uk</a>
ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL	Mae'r adroddiad yn archwilio pob maes gwasanaeth o fewn Gofal Cymdeithasol ac yn dangos sut yr ymdrinnir â strategaethau, gweithredoedd, targedau a risgiau'r gwasanaeth a sut y byddant yn cael eu rhoi ar waith. Mae'n cynnwys	Cabinet 16 Hyd 2023	Nac ydy	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfarwyddwr Cymunedau Silvana Sauro, Rhelowr Perfformiad, Dadansoddi a

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
2022/23	trosolwg o sut rydym wedi perfformio yn 2022/23, ynghyd ag asesiad ynghylch y dyfodol a'n blaenoriaethau strategol ar gyfer 2023/24.				Systemau ssauro@carmarthenshire.gov.uk
CYNLLUN STRATEGOL YNGHYLCH RHEOLI EIN TIR AR GYFER PRYFED PEILLIO YN SIR GAERFYRDDIN	Mabwysiadu arferion rheoli tir sy'n denu pryfed peillio ar dir a reolir gan y Cyngor lle nad oes gwrthdaro rhwng y rhain a'r defnydd tir presennol, ac fel y cytunwyd â chleientiaid (e.e. Tai) a'r contractwr (Cynnal a Chadw Tiroedd).  Byddwn yn sicrhau bod y ffordd rydym yn rheoli ein glaswelltiroedd yn gyson â'r argyfyngau hinsawdd a natur.	Cabinet 30 Hyd 2023	Nac ydy	Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Rosie Carmichael, Rheolwr Cadwraeth Gwledig racarmichael@car-marthenshire.gov.uk
CYNLLUN CYMHELLIANT I DENANTIAID	Mae'r defnydd o gynlluniau cymhelliant a gwobrwyo gan landlordiaid cymdeithasol yn sail i'r dull ehangach o reoli tenantiaeth. Gellir ystyried cymhellion i annog ymddygiad a ddymunir gyda gwobrau'n cydnabod ymddygiad o'r fath.  Mae'r adroddiad yn nodi ein dull o sut y byddwn yn gwobrwyo tenantiaid ond hefyd yn cyflwyno cynllun cymhelliant.	Cabinet 30 Hyd 2023	Nac ydy	Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi	Cyfarwyddwr Cymunedau Les James, Rheolwr Contractau a Datblygu Gwasanaethau LesJames@carmarthenshire.gov.uk
Tudalen 13 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL - CYNLLUN	Cyflwyno cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol drafft (CCA) i ymhelaethu ar gynnwys y CDLI Diwygiedig a'i gefnogi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.	Cabinet 30 Hyd 2023	Nac ydy	Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, Dirprwy Arweinydd ac	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Ian R Llewelyn, Rheolwr Blaen-

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN 2018 - 2033	CCA drafft i gynnwys (yn amodol ar amseru), ond heb fod yn gyfyngedig i: Yr Iaith Gymraeg, Aseidiadau Cymeriad Tirwedd, Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur.			Aelod Cabinet dros Gartrefi	gynllunio IRLlewelyn@sirgar.gov.uk
DIWEDDARIAD Y STRATEGAETH WASTRAFF	Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cam cyntaf o weithredu Strategaeth Wastraff Sir Gar. 2021-2025, gan roi manylion am y newidiadau sydd wedi'u gweithredu, cynnydd mewn perfformiad a strategaeth ailgylchu hyd yn hyn.	Cabinet 30 Hyd 2023	Nac ydy	Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Daniel John, Pennaeth Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol Dros Dro DWJohn@carmarthenshire.gov.uk
ADOLYGIAD GWASTRAFF SWMPUS	Bydd yr adroddiad hwn yn cynnig gwasanaeth swmpus cost-effeithiol, effeithlon i breswylwyr a fydd yn ymgorffori'r hierarchaeth wastraff i sicrhau y gellir ailddefnyddio gwastraff mwy swmpus cyn ei ailgylchu a'i waredu. Adolygiad o'r gost, nifer y swmpiau a gesglir fesul maint eitem, system rheoli apwyntiadau a gofynion cerbydau casglu ar gyfer gwasanaeth o'r fath.	Cabinet 13 Tach 2023	Nac ydy	Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Daniel John, Pennaeth Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol Dros Dro DWJohn@carmarthenshire.gov.uk
DIWEDDARU RHAGLEN	I ddarparu'r newyddion ynglyn a sefyllfa gyllideb ddiweddaraf y rhaglen gyfalaf	Cabinet 13 Tach 2023	Nac ydy	Adnoddau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
GYFALAF 2023/24	2023/24, ar 31ain Awst 2023				Corfforaethol Randal Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol RHemingway@car-marthenshire.gov.uk
ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR	I ddarparu'r newyddion i'r Cabinet ynglyn a sefyllfa diweddaraf cyllideb 2023/24, ar Awst 31 2023	Cabinet 13 Tach 2023	Nac ydy	Adnoddau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Randal Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol RHemingway@car-marthenshire.gov.uk
Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RAGLEN GYFALAF 2022/23 Tudalen 133	Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf o ran sefyllfa y gyllideb ar gyfer rhaglen gyfalaf 2022/23	Cabinet 27 Tach 2023	Nac ydy	Adnoddau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Randal Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol RHemingway@car-marthenshire.gov.uk

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriedig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
					k
ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2023 I MEDI 30AIN 2023	I ddarparu y gwybodaeth diweddaraf i aelodau, ynglyn a gweithgareddau'r adran Rheoli'r Trysorlys yn ystod y cyfnod Ebrill 1af 2023 i Medi 30ain 2023	Cabinet 27 Tach 2023	Nac ydy	Adnoddau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Randal Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol RHemingway@car-marthenshire.gov.uk
STRATEGAETH FARCHOGAETH	<p>Mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin 2019-2029 wedi'i lunio a'i gyhoeddi yn unol ag adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000). Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cyflwyno cynllun Sir Gaerfyrddin ar gyfer rheoli, datblygu, a gwella rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir yn strategol hyd at 2029.</p> <p>Yn ystod yr ymgynghoriad â'r Fforwm Mynediad Lleol, nododd y Fforwm angen i'r awdurdod lleol ymrwymo i lunio Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin i gydnabod y cyfleoedd a'r heriau o ran mynediad ar gyfer marchogaeth a gyrru car a cheffyl ledled y Sir.</p>	Cabinet 11 Rhag 2023	Nac ydy	Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Steve Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth SGPilliner@carmarthenshire.gov.uk

Pwnc	Crynodeb o'r adroddiad	Corff Penderfynu a Dyddiadau	Yn eithriadig ?	Aelod y Cabinet sydd yn gyfrifol am y portfolio (os yn berthnasol)	Cyfarwyddwr cyfrifol/ Awdur yr Adroddiad
	<p>Felly mae Strategaeth Farchogaeth i 'hyrwyddo a datblygu rhwydwaith hygrych at ddefnydd marchogol' wedi cael ei chyhoeddi yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin 2019-2029.</p> <p>Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnig i fabwysiadu Strategaeth Farchogaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin.</p>				
CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2024-2027	Mae cynllun busnes y cyfrif refeniw tai yn nodi ein blaenoriaethau a'n gweithgareddau ar gyfer tai cyngor newydd a thai cyngor sy'n bodoli eisoes yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae hefyd yn pennu ein cyllidebau cyfalaf a refeniw ac yn cadarnhau lefelau rhent i denantiaid.	Cabinet 11 Rhag 2023	Nac ydy	Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi	Cyfarwyddwr Cymunedau Dawn Rees, Business Support Officer (Communities) dkrees@carmarthenshire.gov.uk
CYNLLUN RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD-2	<p>Mae Adran S10.7 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol gyhoeddi eu strategaeth a'u cynllun rheoli perygl llifogydd lleol.</p> <p>Bydd y strategaeth a'r cynllun (y cyfeirir ato fel y cynllun rheoli perygl llifogydd, FRMP-2) yn egluro lle rydym bellach o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (FCERM), lle rydym am fod yn 2030 a sut y byddwn yn cyrraedd yno.</p>	Cabinet 19 Chwe 2024	Nac ydy	Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Ben Kathrens, Rheolwr Amddiffyn Rhag Llifogydd Ac Amddiffyn yr Arfordir BKathrens@carmarthenshire.gov.uk

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwiadol





**Aelodau'r Pwyllgor Craffu i graffu ar yr adroddiadau canlynol drwy e-bost**

Monitro'r Gyllideb 2022/23 am y cyfnod o fis Ebrill 2022 i fis Chwefror 2023	Sefyllfa Alldro'r Gyllideb ar gyfer 2022/23 ar 31 Mawrth 2023.	Monitro'r Gyllideb 2023/24 am y cyfnod o fis Ebrill i fis Awst 2023	Monitro'r Gyllideb 2023/24 am y cyfnod o fis Ebrill i fis Hydref 2023	Monitro'r Gyllideb 2023/24 am y cyfnod o fis Ebrill i fis Rhagfyr 2023	Monitro'r Gyllideb 2023/24 am y cyfnod o fis Ebrill 2023 i fis Chwefror 2024
	Monitro'r Gyllideb 2023/24 am y cyfnod o fis Ebrill i fis Mehefin 2023				
	Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd				
Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn	Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn	Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn	Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn	Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn	Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn

**Eitemau i'w hychwanegu at y Blaengynllun Gwaith:**

**Adroddiadau Diweddarau Chwarterol ynghylch Rheoli Perfformiad** – i'w dosbarthu y tu allan i'r broses cyfarfodydd drwy e-bost. Dyddiadau i'w cadarnhau

**Gweithdai / Sesiynau Datblygu:**

- **Adolygiad o'r prosesau ynghylch trosglwyddo disgyblion rhwng ysgolion** - Yr Adran Addysg i bennu dyddiad priodol yn hydref 2023
- **Ffederasiynau Ysgolion.** Amlinelliad o'r trefniadau ar gyfer grwpio ysgolion – i gynnwys y gwahanol fathau / modelau a threfniadau llywodraethu. Yr Adran Addysg i bennu dyddiad priodol yn hydref 2024
- **Trosolwg o'r Cynnig Addysg Awyr Agored** – sesiwn bosibl ar y cyd â Chymunedau, Cartrefi ac Adfywio (deiliaid y portffolio). Yr Is-adran Cymunedau i bennu dyddiad priodol yng ngwanwyn 2024

Tudalen 138

**Ymweliadau Safle**

- Rhaglen ar gyfer ymweliadau ysgol i'w darparu gan yr Adran Addysg

**DYDD GWENER, 5 MAI 2023**

**PRESENNOL** Y Cyngorydd A.C. Jones (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

P. Hughes-Griffiths                      E. Skinner

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

S.M. Allen	K.V. Broom	J.M. Charles (dirprwyo)	M. Donoghue (dirprwyo)
B.W. Jones	D. Jones	M.J.A. Lewis	S.L. Rees
M. Thomas			

**Aelodau Cyfetholedig (Yn y Siambr)**

A. Enoch, Rhiant-lywodraethwr  
V. Kenny, Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig

**Aelodau Cyfetholedig (Yn rhithwir)**

F. Healey-Benson, Rhiant-lywodraethwr

**Aelodau'r Cabinet (Yn y Siambr)**

G. Davies, Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg

**Aelodau'r Cabinet (Yn rhithwir)**

G. Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant  
A Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant  
E. Forsyth, Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion  
M. Morgan, Uwch Ymgynghorydd Gwella Addysg  
F. Gordon, Athro Ymgynghorol Anghenion Dysgu Ychwanegol (Proses)  
M. Davies, Athro Ymgynghorol Anghenion Dysgu Ychwanegol  
T. Davies, Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar  
D. Livingstone, Swyddog Pontio ôl-16  
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd  
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg  
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth  
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd  
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 12.34 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen, L. Davies a H. Jones.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. POLISI AR DDYFARNU GRANTIAU A'R IAITH GYMRAEG

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Polisi'r Cyngor ynghylch Dyfarnu Grantiau a'r Gymraeg sydd wedi'i baratoi er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd y Polisi yn darparu dull cyson o ymdrin â'r Gymraeg ar draws grantiau amrywiol y Cyngor, gan sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg wrth ddyrannu grantiau a chan sicrhau bod gweithwyr y Cyngor yn gallu cynorthwyo cyrff trydydd parti i hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol wrth gyflawni eu gweithrediadau. Yn hyn o beth, nodwyd bod y Polisi yn cyd-fynd â Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor 2023-28 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cymeradwyo'r Polisi a'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer dyfarnu grantiau, eglurodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth y byddai'r ddogfen, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, yn rhan ganolog o'r broses dyrannu grantiau ar draws holl adrannau'r Cyngor. At hynny, byddai cymorth canolog yn cael ei ddarparu i'r adrannau perthnasol drwy gydol cyfnod gweithredol y grantiau a byddai'n galluogi mesur effaith y Polisi ar y Gymraeg.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai cefnogaeth a chymorth pwrpasol yn cael eu rhoi i ymgeiswyr yn ystod cam ymholiadau'r broses ymgeisio i sicrhau na fyddai Mentrau Bach a Chanolig (BBaChau) dan anfantais. Yn hyn o beth, cydnabuwyd y byddai disgwyliadau'r Cyngor yn amrywio yn ôl y math o sefydliad, y gweithgaredd a'r swm o arian grant sy'n cael ei ddyfarnu.

Mewn ymateb i awgrym bod ceisiadau grant blaenorol yn cael eu hadolygu i sicrhau na fyddai busnesau bach a chanolig yn cael eu heithrio o'r broses, eglurodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth y byddai'r cynnig rhagweithiol o gymorth yn ychwanegu gwerth at weithgaredd y sefydliad perthnasol yn ei gyfanrwydd a'i nod oedd darparu dull datblygiadol i alluogi sefydliadau, drwy ddylanwad y Cyngor, i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau ei hyfywedd.

Canmolodd y Polisi gan Aelodau'r Pwyllgor fel modd o nodi disgwyliadau'r Cyngor yn glir o fewn y broses dyfarnu grantiau i sicrhau effaith gadarnhaol ar weithgareddau cyrff trydydd parti ar y Gymraeg.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Polisi ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg a'i gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried.**

### **5. DIWEDDARIAD AR ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad i'w ystyried ar gynnydd ar weithredu'r darpariaethau sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a oedd yn ceisio trawsnewid disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad a oedd yn manylu ar gynnydd y newid o Ddatganiadau Anghenion Addysg Arbennig (AAA) i Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer disgyblion ag ADY. Dywedwyd y byddai'r broses weithredu'n cael ei gwneud yn raddol hyd at fis Awst 2025 ac y byddai'n arwain at dri chanlyniad categoreiddio posibl i blant a phobl ifanc. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r adborth ar lefel llwyddiant y trawsnewid i'r system ADY newydd, a oedd yn cynnwys trosolwg o'r meysydd sy'n gweithio'n dda a'r rhai y mae angen mynd i'r afael â nhw o ran rôl Swyddogion ADY a Chydgysylltwyr, Blynnyddoedd Cynnar ac Ôl-16 ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, hyfforddiant a chefnogaeth, a hefyd y gwaith partneriaeth parhaus gyda gweithwyr ieuchyd proffesiynol. Adolygodd y Pwyllgor y data ystadegol ar ddisgyblion ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd a'r rhai sydd angen cymorth lleoliad arbenigol lle cydnabuwyd bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y galw am ddarpariaeth Anhwylder Sbectrum Awtistig (ASD) ers mis Medi 2021.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad, esboniwyd y broses a'r meini prawf ar gyfer trosglwyddo Datganiadau AAA i Gynlluniau Datblygu Unigol ADY i'r Aelodau. Yn hyn o beth, cadarnhawyd y byddai pob disgybl sydd â Datganiadau AAA presennol yn cael eu hystyried ar gyfer CDU, ac y byddai disgyblion newydd yn mynd ymlaen yn uniongyrchol i'r broses CDU ADY. Ar ben hynny, roedd deddfwriaeth yn rhagnodi bod disgwyl i'r broses drosglwyddo o Ddatganiadau i Gynlluniau Datblygu Unigol gael ei chwblhau o fewn cyfnod o 12 wythnos gan ddefnyddio dull 'sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' a chasglu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau / rhanddeiliaid priodol. Ystyriwyd bod yr amserlen hon yn hydrin ar y cyfan, ac yn welliant ar y system AAA, er y cydnabuwyd y gellir bod oedi wrth aros am wybodaeth allweddol am ddysgwyr gan randdeiliaid.

Yn dilyn pryderon ynghylch anghysondebau posibl o ran ansawdd y Cynlluniau Datblygu Unigol, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod cymorth canolog wedi'i ddarparu drwy drefniadau gweithio agos gydag ysgolion er mwyn sicrhau cysondeb o ran safon y Cynlluniau. Ar ben hynny, er mwyn mynd i'r afael ag anghyfartaledd posibl o ran ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol ar draws ysgolion o wahanol feintiau, nodwyd bod rhaglen gynhwysfawr o gefnogaeth a hyfforddiant yn cael ei darparu yn unol â'r clystyrau ysgol a nodwyd. Yn hyn o

beth, canmolwyd yn fawr y cynnydd a wnaed gan gydgysylltwyr ADY wrth drosglwyddo o AAA i ADY. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant at arolygiadau Estyn a gwblhawyd yn ddiweddar ac adroddiad ar wahân a gadarnhaodd fod y ddarpariaeth ADY o fewn ysgolion Sir Gaerfyrddin yn rhagorol.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai'r syniad o Gynlluniau Datblygu Unigol oedd eu bod yn ddogfennau hyblyg a fyddai'n cael eu trosglwyddo gyda disgyblion sy'n symud ysgolion. O ran dysgwyr Sir Gaerfyrddin sy'n mynychu ysgolion a lleoliadau y tu allan i'r sir, cadarnhawyd y byddai Cynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu llunio gan Sir Gaerfyrddin yn dilyn gwaith partneriaeth agos a chasglu gwybodaeth berthnasol gyda chydgyssylltydd ADY perthnasol yr ysgol/lleoliad ac yn unol â'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. At hynny, cadarnhawyd, er bod cyfleuster ad-dalu i'r Awdurdod gwreiddiol ar waith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, nid oedd cyllid CDU trawsffiniol wedi'i bennu eto.

Cyfeiriwyd at yr effaith ar ysgolion o ran y pwysau amser ar gydgysylltwyr ADY, a'r pwysau cyllidebol yn unol â'r newidiadau i'r dyraniad cyllid fformiwla. Fodd bynnag, croesawyd y dull newydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan gydgysylltwyr ADY o ran Cynlluniau Datblygu Unigol mwy ystyrion, gyda chanlyniadau gwell i ddysgwyr ag ADY.

Mewn ymateb i ymholiad, rhodddwyd trosolwg o'r cymorth sydd ar gael i'r rhai a sy'n derbyn Addysg Heblaw Mewn Ysgol ac Addysg Ddewisol yn y Cartref i'r Pwyllgor. Cytunwyd bod ystadegau sy'n ymwneud â nifer y plant sy'n derbyn Addysg Heblaw Mewn Ysgol ac Addysg Ddewisol yn y Cartref yn y sir yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas â materion capasiti mewn lleoliadau arbenigol, eglurodd yr Athro Ymgynghorol ADY mai blaenoriaeth y Cyngor oedd gwella'r capasiti o fewn ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr fynychu ysgolion yn eu hardal.

Cyfeiriwyd at ôl troed sylweddol darpariaeth arbenigol Ôl-16 yn y sir a oedd yn rhoi hawl 3 blynedd i gyllid a chymorth o dan y fframwaith AAA. Fodd bynnag, nodwyd bod y côd ADY yn rhoi hawl i gael 2 flynedd o addysg a hyfforddiant Ôl-16 pan fo angen rhesymol a fydd yn golygu bod angen adolygu'r ddarpariaeth arbenigol sy'n cael ei chynnig gan Sefydliadau AB ac Awdurdodau Lleol. Rhodddwyd sicrwydd bod trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio eglurder ynghylch a fyddai darpariaeth ôl-16 bresennol y sir o fewn ysgolion prif ffrwd yn parhau i gael ei chyllido a goblygiadau'r model hwn, o gymharu â'r llwybr presennol a ffefrir gan Lywodraeth Cymru sef cyllido drwy ddarparwyr annibynnol. Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru maes o law.

Mynegwyd pryderon gan y Pwyllgor o ran diffyg cydraddoldeb rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg o ran gallu cael mynediad at ystod eang o asesiadau ac adnoddau safonol i gefnogi'r gwaith o adnabod ADY yn gynnar ac yn gywir, o gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg. Rhodddwyd sicrwydd bod hwn yn faes blaenoriaeth i'r Cyngor ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r mater yn genedlaethol.

Cyfeiriwyd at y wybodaeth ystadegol a nodwyd yn yr adroddiad lle eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod angen trosglwyddo mwy o blant ysgol uwchradd i'r fframwaith CDU ADY gan eu bod wedi derbyn Datganiad AAA i ddechrau, tra bod nifer o blant ysgolion cynradd wedi cael CDU cyfredol, a roddwyd cyn y gofyniad statudol i wneud hynny, mewn achosion lle'r oedd caniatâd rhieni wedi'i ddarparu.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y gwaith o weithredu systemau a phrosesau newydd i fodloni gofynion statudol gan gydnabod yr angen a nodwyd gan yr Is-adran am gyllid craidd ychwanegol i sicrhau darpariaeth ADY ddigonol yn y tymor hir. Nodwyd hefyd y pwysau na welwyd ei debyg o'r blaen mewn ysgolion i wella presenoldeb a chefnogi llesiant academiaidd, cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr.

#### **PENDERFYNWYD:-**

- 5.1 Dosbarthu i'r Pwyllgor ystadegau mewn perthynas â nifer y plant sy'n derbyn 'Addysg Heblaw Mewn Ysgol' ac Addysg Ddewisol yn y Cartref o fewn y Sir.**
- 5.2 Dosbarthu i'r Pwyllgor ddiweddariad am drafodaethau â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllido darpariaeth ôl-16 maes o law.**
- 5.3 Cymeradwyo'r adroddiad a'i gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried.**

## **6. STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2023-28**

Cafodd y Pwyllgor Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer 2023-28 i'w hystyried, a baratowyd ar y cyd â Fforwm Strategol y Gymraeg fel rhan o gyfrifoldebau'r Cyngor drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Iaith ddilynol. Roedd y strategaeth yn manylu ar sut y mae'r Cyngor yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir.

Nod y Strategaeth oedd ysgogi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, balchder a hyder yn yr iaith Gymraeg, mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac ymhlith y gweithlu fel 'norm' a chymunedau Cymraeg ffyniannus. Byddai cyfanswm o 9 ffrwd waith yn cael eu gweithredu fel cynllun gweithredu i gyflawni nodau'r strategaeth yn ystod ei chyfnod. Byddai'r Strategaeth yn cael ei lansio'n ffurfiol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2023 yn Llanymddyfri.

Cyfeiriwyd at baragraff 6 o'r rhagair lle eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg y byddai'r geiriad yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

*“Ein dymuniad yn Sir Gaerfyrddin yw nid cynyddu niferoedd ac annog defnydd yn unig, ond hefyd i groesawu pobl i'r Gymraeg yn hyderus a heb ymddiheuriad.”*

Rhodddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Gwnaethpwyd cais i'r gynrychiolaeth graffigol ar dudalen 57 o ddogfennaeth y cyfarfod gael ei labelu'n briodol. Cytunwyd y dylid gwneud hynny.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg dosbarthiadau Cymraeg wyneb yn wyneb sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd lleol er mwyn galluogi dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn gweithredu ar drefniant masnachfrait gyda Choleg Sir Gâr a bod gwaith yn cael ei wneud i wella ac ehangu'r ddarpariaeth. Yn hyn o beth, nodwyd y byddai'r adran yn croesawu adborth a mewnbwn y Pwyllgor ar y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion.

Croesawodd y Pwyllgor y strategaeth fel ffordd o gael effaith gadarnhaol ar hyfywedd y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin a phwysleisiodd bwysigrwydd rhoi cyfle i drigolion glywed a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

## **PENDERFYNWYD**

- 6.1 Labelu'r gynrychiolaeth graffigol ar dudalen 57 o ddogfennaeth y cyfarfod yn briodol.**
- 6.2 Cymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer 2023-28 a'i chyfeirio at y Cabinet i'w hystyried.**

## **7. GWERTHUSIAD O AROLYGIADAU ESTYN AR DRAWS YSGOLION SIR GAERFYRDDIN, UNEDAU CYFEIRIO DISGYBLION A LLEOLIADAU ARBENIGOL**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad oedd yn rhoi trosolwg o ganlyniadau arolygu Estyn yn y sir dros y pum mlynedd diwethaf. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod safonau ac arweinyddiaeth yn cael eu barnu'n dda neu'n well yn y mwyafrif o ysgolion, gyda lleiafrif yn unig o ysgolion yn cael eu rhoi mewn categori i'w gwella. Rhoddwyd trosolwg o'r fframwaith arolygu newydd a fabwysiadwyd gan Estyn ym mis Mawrth 2022 i'r Pwyllgor, ynghyd â chrynodeb o'r arfer cryf neu effeithiol a nodwyd gan arolygwyr Estyn i'w rannu ag eraill.

Adolygodd y Pwyllgor yr argymhellion gwella ysgolion a ddarparwyd gan Estyn ers mis Mawrth 2022 a rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod holl ganlyniadau Estyn wedi dylanwadu ar strategaethau gwella'r adran ar gyfer ysgolion, ffyrdd o weithio a'r rhaglen cymorth Dysgu Proffesiynol.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Mynegwyd pryder ynghylch Rhaglen Arolygu Estyn yng ngoleuni'r newid i'r cwricwlwm newydd, ynghyd â'r effaith andwyol ar ddatblygiad dysgwyr o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Eglurodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion fod y newid mewn ffocws o ganlyniadau dysgwyr i'r cynnydd a wnaed gan ddysgwyr yn galluogi Estyn, ysgolion a'r Awdurdod i gymryd golwg gyfannol ar ddysgwyr, er mwyn diwallu anghenion dysgwyr unigol yn well.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**



**8. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â cheisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23.

**PENDERFYNWYD** bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

**9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 24 MAWRTH 2023**

**Yn amodol ar gynnwys presenoldeb aelodau cyfetholedig perthnasol, PENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2023 fel cofnod cywir.

\_\_\_\_\_  
**CHAIR**

\_\_\_\_\_  
**DATE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol